YR YMOFYNYDD.

RHIF. 1.] IONAWR, 1859. [AIL GYFRES.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

ANERCHIAD.

GYDWLADWYR HOFF,

AR daer ddeisyfiad nifer mawr o hen noddwyr yr *Ymofynydd*, a chyfeillion eraill, wele ni, ar ol encyd o orphwys, yn anturio un waith etto ar y gorchwyl o gyhoeddi misolyn Cymreig. Croes iawn i'n dymuniadau ni, a siomedigaeth fawr, o bosibl, i lawer eraill, oedd rhoddi yr *Ymofynydd* i fynu yn 1854. Yn mhlith ei dderbynwyr bydd hwn a'r llall yn barod i ofyn, Beth oedd yr achos o'i roddi i fynu y pryd hwnw? Yr y'm yn atteb, Mai diffyg o gydymdeimlad a chydweithrediad oedd yr achos, yngbyd a'n bod ni ar yr un pryd yn teimlo y cymhwysder o fod y cyfryw ag oeddent yn beio ar olygyddiaeth yr *Ymofynydd* i gael cyfleu i osod ar droed gyhoeddiad oedd well. Gadawwyd i'r cyfleu hwnw fyned heibio heb gynnyg gwneuthur dim. Oddiar hyny hyd yn awr, llawer gwaith ac o lawer ewr o'n gwlad y daeth y gofyniad attom, "A oes gobaith, a pha bryd y daw yr *Ymofynydd* etto"?

I'r gofyniad hwnw y mae ein Rhifyn presenol—y cyntaf o'n Cyfres Newydd—yn attebiad cyflawn a boddhaol, gobeithiwn. Nid y'm yn gweled fod anghen na chymhwysder ychwaith, i roddi enw newydd ar ein misolyn bychan. Gan ei fod i gael ei ddwyn yn mlaen ar yr un egwyddorion, ac yn bresenol dan yr un golygyddiaeth, barnwn mai gwell cadw wrth yr hen enw. Ac heblaw, oherwydd amryw resymau nas gallwn, o ddiffyg lle, gymaint â'u nodi ar hyn o bryd, ymddengys fod yr enw YMOFYNYDD yn atteb yn bur dda i brif ansawdd ac amcan ein cyhoeddiad. Ein gair cyswyn etto fydd, "Rhydd i bob meddwl ei farn, a rhydd i bob barn ei llafar."

Diau fod peth cyfnewid wedi cymeryd lle, yn ystod y pedair mlynedd diweddaf, yn amgylchiadau ein darllenwyr. Y mae llawer o hen dderbynwyr yr *Ymofynydd*, amryw a fuont yn noddwyr gwresog iddo yn eu dydd, bellach wedi canu yn iach i bob gofal a gorchwyl dan haul. Eraill o honom ydym yn tynu yn gyflym ar eu hol. Ac y mae tô newydd o dderbynwyr yn cyfodi —ac yn eu plith ddynion ieuainc, neu rai fuont yn amddifad o fanteision

blaenorol—ac eraill, o bosibl, yn cyfodi o'r tu allan i gylch blaenorol ein cyhoeddiad, y rhai a gyffroir gan ysbryd ymchwiliad yr oes, ac a chwenychant wybod y gwir am ddaliadau a rhesymau "y sect honno y dywedir cymaint yn ei herbyn." Wrth y dosbarth hwn yn benaf y mae genym air neu ddau i ddywedyd yn nghylch caracter ac amcanion yr *Ymofynydd.*

I ryw fesur, y mae'r *Ymofynydd* yn gyhoeddiad *enwadol.* Amcenir ef yu y lle cyntaf i fod yn gyfrwng rhwng Undodiaid a'u gilydd, a rhyngddynt hwy a'r cyhoedd. A gobeithio y gallwn ddywedyd drosom ein hunain a'n cynhorthwywyr, y bydd yn llawen genym ddefnyddio y cyfleusdra i osod ein hargyhoeddiadau crefyddol yn barchus ger bron ein cyd-genedl, ac i roddi rheswm dros y gobaith sydd ynom—ac yn enwedig i amddiffyn ac egluro yr athrawiaeth ogoneddus ond anmhoblogaidd am UN DUW A HWNW YN DAD, a'r athrawiaethau cyssylltiedig parth y wir iechydwriaeth trwy Grist ac addewidion ei efengyl ef. Cymaint â hyn a ellir ei gyfiawn ddisgwyl oddiwrthym, fel pwnc o ddyledswydd i Dduw'r gwirionedd. Ond ymhellach nâ hyn, bwriadir ein misolyn hefyd i fod yn gyhoeddiad *rhydd.* Un o'n prif bynciau, fydd i amddiffyn ac annog rhydd-ymofyniad. Hyderwn na cha neb, yn fwy na'u gilydd, achos i'n cyhuddo o bleidgarwch. Ceisiwn gadw wrth y reol euraidd, o wneuthur i eraill fel yr ewyllysiwn i eraill wneuthur i ninau: yr hon a saif yn gadarn fyth, serch bod cymaint o droseddu yn ei herbyn. Heblaw hyn, rhan fawr o swydd y gwir ymofynydd, ydyw, i edrych ar y ddwy ochr i'r ddalen, ar bob pwnc dadleuedig, ac i annog arall i wneuthur yr un modd—i chwilio yn ddi-ofn ac yn ddi-flino am y gwir, fel am drysor cuddiedig, ac i fod yn ffyddlon i'r goleuni a gaffo, fel yn ngwydd Chwiliwr y calonau. Pa lês wnaeth dall-bleidiaeth i un dyn erioed, neu i'r byd? Neu, yn hytrach, pa felldith braidd y sydd nad yw dall-bleidiaeth wedi bod ryw bryd yn achos o hono?

Pa fodd bynag, nid wrth ddadleu yn unig, mae'r *Ymofynydd* yn golygu cael parhâd bywyd iddo ei hun ac ymborth enaid i'w ddarllenwyr. Y mae meusydd eraill sy'n croesawi ymchwiliad—meusydd ffrwythlawn a thoreithiog—ar dir natur ac ar dir dadguddiad—lle y gall plant Duw gyd-loffa i bwrpas da, heb gyffwrdd â dadleuon pigog y pum pwnc na Chredo Athanasius. Ond nid oes genym un cyd-ymdeimlad na ffafr i ddangos i'r sawl a geisiant dra-arglwyddiaethu ar gydwybodau dynion.

Dim ond rhyfel parhaus yn erbyn twyll a gormes gau-grefyddwyr—pa un ai byddont yn chwythu bygythion o'r uchel leoedd, neu ynte mewn tai-cyrddau bychain, yn gosod i fynu fwbachod crefyddol er dychrynu plant a gwrageddos ac eneidiau llaith, a pheri iddynt ymswyn na roddont glust-ymwrandawiad i'r hereticiaid, na chredu na darllen dim ond a fyddo yn unol â'r gredo a gymeradwyir gan "y corff" neu gan y gymanfa. Pe gwrandewid arnom, taer-alwem ar y cyfryw i bwyllo a gadael eu rhyfyg pechadurus, ac i gofio "mai mater personol yw crefydd," ac "y bydd i bob un o honom drosto ei hun i roddi cyfrif i Dduw." Ond i bawb, o ba enwad bynag, ag ydynt yn caniatau i eraill yr un hawl a ddefnyddiant hwy, o farnu drostynt eu hunain, dymuna yr *Ymofynydd* estyn deheulaw o gyfeillgarwch calonog. Y mae'r gwirionedd o fwy o werth na phleidgarwch. Ceisiwn gyd-ddwyn a'n gilydd yn ein hamrywiaethau crefyddol, gan fod yn barod i gynhorthwyo y naill y llall. "A bydded pob dyn yn sicr yn ei feddwl ei hun."

Darfu amryw gyfeillion, y rhai oeddent yn ystyried y perygl o golled arianol oddiwrth fod y pris yn isel a'r cylchrediad mor gyfyngedig, gynnyg

fod i ni gwnni pris pob rhifyn i bedair ceiniog, gyda rhyw ychydig o chwanegiad, o bryd i'w gilydd, at ei faintioli, fel y byddai amgylchiadau yn galw. Nis gallwn wybod yn bresenol, pa sut y bydd am hyn o beth—pa un ai y gwelir yn ofynol ai peidio, i wneud hyny, er mwyn cadw y cyhoeddiad ar droed—ond gobeithio nas bydd. Ymddibyna hyny yn benaf ar y nifer a geir o dderbynwyr cyson. Ymddibyna hefyd, i ryw fesur, ar yr angenrheidrwydd neu'r cymhwysder a welom o ychwanegu rhyw ychydig ddudalenau er mwyn cael lle i ohebiaethau fyddont yn galw am eu cyhoeddi. Ond beth bynag am faintioli y rhifyn, ni fydd un cwnnad yn y pris heb roddi rhybydd prydlawn i'r derbynwyr. Ac os cawn ni y fraint o allu llanw ein cyhoeddiad bychan â chyfansoddiadau a fyddont i'r pwrpas—sylweddol a dewisedig—nyni a gawn ein llwyr foddloni, a'r cyhoedd fyddant ar eu hennill. Ac nid y lleiaf o'n amcanion yw, fod ein cyhoeddiad mor rhad ag i fod o fewn cyrhaedd gweithiwr a fyddo ei ennill yn fach.

Cyfiawn yw nodi, mai i weithwyr Aberdâr (lle y dioddefir fwyaf oddiwrth wasgfa yr amser presenol) a'u hymdrechiadau selog, a'r cydymdeimlad a ddangoswyd yn y gymydogaeth, yr ydys yn ddyledus yn flaenaf am adfywiad yr *Ymofynydd* ar y pryd hwn. O'r mwy na dau cant a fuont mor barod i roddi eu henwau ac i dalu yn mlaen llaw, er mwyn cychwyn y cyhoeddiad, gobeithio nas caiff neb ei siomi. Ond beth sydd i ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad? Ai mai gweithwyr Aberdâr yn unig oedd yn gweled ac yn teimlo yr arghen o fod genym Gyhoeddiad rhydd—i fod yn gyfrwng rhwng Undodiaid y Deheubarth â'u gilydd, a rhyngddynt â'r cyhoedd? neu ynte fod gweithwyr Aberdâr yn rhagori yn mhell ar eu brodyr mewn sêl a ffyddlondeb; neu ynte yn mhellach, fod i ni edrych ar hyn fel rhyw flaen-ffrwyth, —rhyw argoel calonogol fod amser gwell yn gwawrio ar dir ein gwlad?

Buasai yr *Ymofynydd* wedi cychwyn ar ei daith gyda dechreu y flwyddyn, oni buasai yr angenrheidrwydd o aros i gael gwybod nifer y derbynwyr: fel y mae, yr ydym yn anturio myned i'r wasg, heb oedi yn mhellach. Ond bwriadwn argraffu rhyw nifer o rifynau yn ychwanegol y mis hwn, ar gyfer ein cyfeillion o Lan Teifi, a chymydogaethau eraill nad ydynt wedi anfon eu henwau attom; pa rai, fel y barnwn, nid oeddent yn disgwyl y byddem yn barod at ein gorchwyl mor gynnar yn y mis.

Pa fodd bynag, wele ni yn cyflwyno ein rhifyn cyntaf etto i hynawsedd ein darllenwyr. Un bychan ydyw: na feier yn fawr ar ei ddiffyg o amrywiaeth. Erbyn y mis nesaf bydd rhai o'n rhwystrau presenol wedi eu symud. Y mae *Cegin y Gweithiwr* a chyfansoddiadau gwreiddiol eraill yn ein dwylaw. Ac y mae yn dda genym allu hysbysu fod Traethawd Mr. Stephens ar y *Madogwys*, yr hwn a barodd gymaint o gynhwrf yn Eisteddfod fawr Llangollen, i ymddangos yn yr *Ymofynydd*, ac i ddechreu yn ein rhifyn nesaf. Ond rhaid i ni dori ein hanerchiad yn fyr, o ddiffyg lle.

Gan obeithio y bydd i'n misolyn gael derbyniad croesawus etto fel o'r blaen, ac y bydd iddo barhau i fod yn gyfrwng effeithiol er addysg a diddananwch, a buddioldeb cyffredinol, gorphwyswn bellach.

Yr eiddoch yn barchus,

Penybont-ar-Ogwr. Y GOLYGYDD.

CREFYDD YN Y BYD YN MHOB OES.—Rhif I.

Peth dymunol iawn yw gweled pob dyn yn ymestyn at wybodaeth, ac yn dangos parodrwydd yn wastadol i gvfranu unrhyw wybodaeth a fyddo ganddo er addysgu a diwygio eraill. Trwy lafur ac ymdrechion y diwyd, y mae gwybodaeth o bethau naturiol, moesol, a chrefyddol, wedi cyraedd ei sefyllfa bresenol. Mae hanesiaeth yn ein harwain i gredu fod crefydd o ryw fath, wedi bodoli yn y byd, ymhob oes, ac ymhlith pob cenedl—gellir ei holrain i oes babandod y byd, a'i chael ymhlith enwogion boreuaf yr hîl ddynol. Yr hanes hynaf a feddwn o honi—yr hwn a gynnwysir yn y Beibl—a ddengys i ni ei bod hi yn y byd cyn ymraniad teulu dyn i wahanol genedlaethau. Rhydd yr Ysgrythyr i ni ryw ychydig gofnodau am ddefodau crefyddol yn yr oesau cyn y diluw: megys offrymau Cain ac Abel; yr ymarferiad o weddi, neu broffes o grefydd; crybwyllir hefyd am gymmeriad duwiol hiliogaeth Seth; rhoddir hanes byr am ffydd ac ymarweddiad duwiol Enoch; ac mae teulu Noah yn cael ei ddwyn ymlaen mewn cyssylltiad a chrefydd yr amseroedd ychydig cyn ac wedi y diluw.

Ar ol ffurfiad cenhedlaethau, gwedi gwasgariad y bobl o Babel, cawn ychydig hanes yn y Beibl, am sefydliadau crefydd ymhlith gwahanol ddosparthiadau dynolryw. Mae chwedl-hanesiaethau hynaf *(myths)* amrywiol genhedlaethau y ddaear, yn cyfeirio at ryw fath o grefydd a sefydlwyd yn eu plith gan ffurfwyr eu cenhedlaethau—ac o blaid y cyfryw sefydliadau hwy a deimlent frwdfrydedd mawr. Mae yr hanesion anghysegredig boreuaf yn orlawn o'r pethau hyn: o'u tudalenau ni a ddysgwn pa fodd yr arferai yr Aifftiaid, Babyloniaid, Groegiaid, a chennedloedd eraill, barchu a chyflawni defodau a seremoniau crefyddol; ac er fod y darluniadau a gawn o honynt mewn gwahanol wledydd yn amrywio ac yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd, eto, ni a allwn edrych arnynt fel ffrydiau a darddasant, yn y dechreu, o'r un ffynnon.

Felly mae cyffredinolrwydd crefydd o ryw fath, yn yr oesau boreuaf, yn ffaith hanesyddol; ac mae hanesyddiaeth yn ein dwyn ni i adnabyddiaeth o amrywiol gredöau, ffurfiau, a defodau y cenhedlaethau mewn oesau diweddarach; ymddengys eu bod oll wedi ufyddhau i'r ddeddf honno o'r meddwl dynol, yr hon sydd yn ei gynnyrfu i geisio gorphwysfa o ryw fath mewn crefydd.

Mae ein adnabyddiaeth o wahanol daleithiau y ddaear wedi ychwanegu yn fawr yn ddiweddar, trwy welliant mewn mordwyaeth, a'r cynnorthwy i deithio yn gyflym a gawsom gan Reilffyrdd, ac y mae y darganfyddiadau daearyddol a wnaed, a'r wybodaeth ychwanegol a enillwyd, yn cadarnhau yr un gwirionedd, sef nad oes nemawr o un genedl na llwyth o ddynion nad oes ganddynt rywfath o grefydd, a rhyw feddylddrych am Dduw ac am fyd neu sefyllfa ddyfodol; nid yw yr eithriadau o hyn ond ychydig, ac fe ddichon, pan wneir ymchwiliadau manylach i olygiadau pob cenedl, y bydd i'r ychydig eithriadau hyny ddiflannu yn gyfangwbl; ac os yw y gosodiadau uchod yn gywir, gellir barnu fod crefydd, mewn rhyw ystyr, yn *naturiol* i'r hil ddynol. Mae y casgliad hwn yn naturiol yn cynnyg ei hun; canys ar y dyb wrthwynebol byddai yn anhawdd cyfrif am sefydliad a chynaliaeth defodau crefyddol, yn mhob oes o'r byd ac yn mhlith pob cenedl o ddynion, heb orfod addef fod gwasanaeth crefyddol yn yr egwyddor o hono yn ddeddf naturiol i feddwl dyn. Mae rhyw ddiffyg yn cael ei deimlo yn y meddwl dynol nad

oes dim ond crefydd a ddichon ei gyflawni. Mae cynneddfau dyn a chymmwysder naturiol ynddynt at gyflawni gwasanaeth crefyddol; maent yn addas i wahaniaethu rhwng da a drwg, rhwng gwirionedd a thwyll, ac i dderbyn addysg mewn dyledswyddau perthynasol a chymdeithasol, ac i ganfod y rhwymau sydd yn orphwysedig ar ddyn i gyflawni y cyfryw ddyledswyddau, yn nghyd a'r manteision a darddant iddo o'u cyflawni megis ag y dylai: mae cymmwysder mewn dyn i gael ei lywodraethu gan ddeddf, a'i ddylanwadu gan gynnygion o wobrwyon, a bygythion o gospedigaethau, ac o weithredu dan arolygiaeth Duw anweledig, a chyda golwg ar sefyllfa ddyfodol o *ad-daliad (retribution).*

Ond er y gellir dweyd fod crefydd yn naturiol i ddyn, nid yw yn canlyn fod y gwirionedd bob amser yn cael ei ddewis. Mae *angen* y meddwl yn *gyffredinol*, ond mae y teimlad o hono yn ymddangos fel pe byddai yn cael ei foddloni a'i ddigoni gan ryw fath, a phob ffurf o grefydd, er nas dylai fod felly. Yr oedd yr Atheniaid yn ychwanegu duwiau a defodau cenedlaethol eraill at eu duwiau a'u credoau blaenorol eu hunain. Nid yw tueddiad y natur ddynol at ryw gyfundraeth o ffydd ac addoliad yn gyfarwyddyd digyfeiliorn at *un* gyfundraeth yn neillduol; canys pe felly, buasai unffurfioldeb hollol yn Nuwinyddiaeth yr holl genedloedd. Ond nid felly y mae; eithr er fod crefydd, mewn rhyw ystyr, yn naturiol i ddyn, mae amrywiaeth mawr o olygiadau crefyddol wedi ac yn parhau i ffynnu yn y byd, a gwahanol ffurfiau a seremonïau wedi ac yn cael eu cyflawni a'u cymmeradwyo. Darfu i olygiadau ac arferion crefyddol dynolryw i amrywio oddiwrth eu gilydd yn foreu iawn; cyn i Dduw i foddi cydoesolion Noah, yr ydym yn cael fod yn eu plith ddynion o wahanol gymeriad a golygiadau; ac wedi hyny, os oedd wyth o'r un gredo ac o'r un ffydd yn yr arch, pan ddarfu i'w hiliogaeth i ymdaenu a gwasgaru ar wyneb y ddaear, ymddengys i amrywiaeth cyn hir gymeryd lle, ac i bob llwyth a chenedl i gofleidio rhyw olygiadau neillduol gwahanol oddiwrth eraill, ac felly y mae wedi bod trwy bob oes oddiar hyny hyd yn bresenol.

Y pedwar dosparth o olygiadau crefyddol yn mhlith dynion ydynt, Cristnogaeth, Iuddewaeth, Mahometaniaeth, a Phaganiaeth, ac i'r rhai hyn y perthyna adraniadau lliosog. Mae y meddwl ymofyngar yn naturiol yn ymestyn at gael allan yr achosion o'r holl amrywiaethau hyn yn ngolygiadau crefyddol dynoliaeth; ac yn holi ac yn olrhain yr achosion a arweiniasant fodau o'r un natur, dan ddylanwad yr un anghenion, i ddewis crefyddau mor wahanol, ac yn fynych mor wrthwynebol i'w gilydd. Beth sydd yn amgylchiadau dynoliaeth a ddichon ein galluogi ni i roddi cyfrif boddhaol am y cyfryw ffaith? A ydyw hyn wedi cyfodi oddiar amgylchiadau allanol, megis amser, lle, hinsawdd neu wlad? Mae rhywbeth heblaw hyny yn achosi hyn —canys yn yr un oes, yn yr un hinsawdd, dan yr un llywodraeth, ac ymhlith pobl yn llefaru yr un iaith, ceir crefyddau, credoau, ac ymarferion crefyddol eithaf gwahanol a chroes i'w gilydd; credoau ydynt yn cael eu credu, a seremonïau yn cael eu cyflawni, dan yr un amgylchiadau naturiol a chymdeithasol.

A ydyw yr amrywiaeth hwn yn cyfodi oddiwrth ryw dueddiadau gwreiddiol neu naturiol yn y meddwl dynol at wahaniaeth a gwrthwynebiad, yn hytrach nag at unfrydoldeb teimlad, a chyd-darawiad golygiadau? Nis gellir dysgwyl i ddynion fod o'r un farn yn hollol ar bynciau crefyddol mwy nag ar destynau celfyddydol; y mae amrywiaeth mewn barn yn cymeryd lle,

braidd ar bob testyn ag y mae meddyliau dynion gwedi bod yn myfyrio yn ddyfal arno. Eto nid yw eu gwahaniaeth yn gyffredin yn gymaint fel nas gallant gytuno i ddwyn pethau yn mlaen yn gymdeithasol, oblegyd y maent yn nes at eu gilydd yn aml mewn ymarferiad nag y maent mewn erthyglau credo. Nid oes un angenrheidrwydd fod mwy o wahaniaeth golygiadau rhwng dynion mewn pethau crefyddol nag sydd rhyngdddynt mewn pethau naturiol; ac o'r tu arall nid oes lle i ddysgwyl fod unrhyw wahaniaeth yn cymeryd lle yn ngweithrediadau y meddwl dynol pan yn chwilio i mewn i athrawiaethau crefydd, oddiwrth yr hyn y mae ef yn eddu ac yn ddefnyddio pan y mae yn olrhain rhyfeddodau natur, a dyfeisiau celfyddyd.

Mae amrywiaeth golygiadau wedi ymddangos am oesau lawer yn nghrefyddau prif genhedlaethau y ddaear. Gwedi colli golwg ar oleuni datguddiad dwyfol, troisant bawb i'w ffyrdd eu hunain, gan ganlyn eu dychymygion eu hunain; felly darfu y Babyloniaid a'r Arabiaid addoli y bodau wybrenol; y Canaaneaid a'r Syriaid a addolent Baal, Tammuz, Magog, ac Astarte; y Phœniciaid a aberthent blant i Moloch; rhoddai yr Aifftiaid barch crefyddol i anifeiliaid, adar, pysgod, wnwns *(onions)*, a chenin; y Groegiaid dysgedig a gydnabyddent yn nghyfundraeth eu ffydd ddeng mil ar hugain o dduwiau; ac y mae y cyfundraethau paganaidd sydd yn y byd yn bresenol mor ffol ac anghyson ag eiddo eu hynafiaid yn yr oesau gynt. Mae angen gan hyny i Gristnogion o bob enwad i fod yn ofalus iawn i chwilio yr ysgrythyr, a gochelyd cymeryd dim i mewn i erthyglau eu credoau ag na fyddo wedi ei amlygu yn y Gwirionedd Dwyfol; ac yna ni a allwn obeithio y daw dynion yn llawer nes at eu gilydd mewn barnau crefyddol nag ydynt yn bresenol, er nas gallwn ddysgwyl iddynt hollol gydweled ar bob pwnc, mwy nag y maent yn cytuno mewn pethau gwladol ac anianyddol. Hyderaf y bydd yr YMOFYNYDD yn gyfrwng rhydd a defnyddiol i ddynion o wahanol farnau i wneud eu golygiadau yn gyhoeddus.

Coleg Caerfyrddin, Rhag. 8, 1858. W. D.

GROESAW I AIL YMDDANGOSIAD YR 'YMOFYNYDD.'

MAE llawer o ymffrost yn yr oes hon am "*rydd-did*"—"rhydd-did crefyddol"—"rhydd-did meddwl a llafar,"—ond heb chwilio yn fanol iawn, fe geir allan fod mwy o swn na sylwedd yn y cyfryw broffesiadau. Mor belled ag y mae fy mhrofiad yn cyraedd, mae pob un, mewn cwrdd neu eglwys, yn barod i hòni hawl iddo ei hun i farnu, meddwl, a gweithredu fel y myno; ond y fynyd y ceisio arall ddefnyddio yr un fraint, a barnu drosto ei hun, y mae efe yn dechreu ffromi, a bygwth, a son am iawnffyddiaeth (yr hon bob amser yw ei ffydd ei *hunan!*) a chan bwyll y mae y gwirionedd yn dyfod i'r amlwg, nad ydyw yn gwybod dim am "rydd-did"—"rhydd-did crefyddol," &c., *sef gwir rydd-did cristionogol*—yr *un rhydd-did* i eraill ag a hònir i ni ein hunain. Mae'r sillaf gyntaf—yr egwyddor flaenaf—etto heb ei dysgu gan neb o'r sectau poblogaidd yn ein gwlad. Gwir yw fod *un* yma a thraw yn deall rhywbeth am natur rhydd-did crefyddol, ac yn barod i estyn i *bawb* y rhydd-did ag y mae'n garu mor fawr ei hunan. Er hyny mae nifer y cyfryw mor lleied fel nad yw yn cael nemawr o ddylanwad ar y werin. Ni chaiff Cristnogrwydd byth chwarae teg hyd nes caffo pob dyn gyflawn hawl i farnu drosto ei hun. Os bydd i ryw offeiriad neu bregethwr fod mor onest

a chydwybodol a gwneuthur yn gyhoedd ei farn am brif wirioneddau Cristnogrwydd, a dywedyd y *gwir am air Duw*, ond yn groes i'r Gredo sefydledig, fe'i cyhuddir ef, os offeiriad yw, ger bron yr allor, gan Esgob, o bob heresiau dinystriol, ac yna camddarlunir ef, hyd nes *helir* ef allan o'i sefyllfa, ac efallai o wlad ei enedigaeth! Os pregethwr y dichon fod, ac os beiddia feddwl drosto ei hunan, nis trinir ef gyda llawer mwy o diriondeb. Ond y mae amser *orthodoxy* bron a dirwyn i fyny! Mae'n anhawdd iawn i ddyn call, dysgedig, ac ymofyngar i gadw lygad yn llygad a'r hen foneddiges! Yn hen dywyllwch yr oesoedd gynt y mae hi yn caru aros. Mae goleuni, ymofyniad, a rhydd-did yn wenwyn marwol iddi! A dyma'r achos fod ei chefnogwyr mor llawnfrydig yn erbyn egwyddorion cynnydd. Ond fe *á* y rhai hyn rhagddynt er gwaethaf pob rhwystr!

Grocsaw cariadlawn, ynte, i'r Ymofynydd, gan bob carwr gwirionedd, rhydd-did, a rhinwedd, yn mhob eglwys a chapel! Yma y ca pawb chwarae teg, beth bynag ddichon fod eu syniadau! Yma y cefnogir pob ymgais er ymledaeniad gwybodaeth, rhydd-did, a brawdgarwch—pob ymgais er dwyn i'r amlwg berlau gwerthfawrocaf gwir grefydd! Yma bydded cariad y Tad yn tywynu bob amser, ac yn tyneru ac yn gwresogi calonau ei blant tuag at eu gilydd, o bob plaid ac enwad. Yma llefared y tafod bob amser wir argyhoeddiadau y meddwl; a bydded yr Ymofynydd yn darian gadarn i amddiffyn pawb a erlidir oherwydd fod yn well ganddynt foddloni Duw na dynion. Hir y parhao yr Ymofynydd i chwilio allan bob gwirionedd yn ngair a gweithredoedd Duw, ag sydd yn dwyn cysylltiad â chynnydd a dedwyddwch dyn!

D. L.

SIR ISAAC NEWTON: EI OLYGIADAU CREFYDDOL.

Cyfododd dadl, ym Merthyr Tydfil, yn nechreu y flwyddyn hon, rhyngof a gweinidog Annibynol o Rymni, ynghylch golygiadau crefyddol Milton, Newton, a Locke; ac y mae amryw o Undodwyr y dref hon wedi traethu eu dymuniad i weled sylwedd y ddadl yn Gymraeg.

Attaliwyd y ddadl cyn i mi gael trin golygiadau Sir Isaac Newton; a chan hyny, dichon mai y llythyr ar y testun hwnw a fyddai y mwyaf addas i'w gyhoeddi wrth adgyfodi yr *Ymofynydd*.

Tarddodd y ddadl oddiar araeth a draethais yng Nghapel Twynyrodyn; ac yn hòno dywedais, i'w ysgrifau duwinyddol ef gael eu cadw o'r golwg, gan ei dylwyth, oherwydd dywediad yr Esgob Horsley, eu bod yn anaddas i'w cyhoeddi. Ond o fewn y tair blynedd diweddaf, gwnaethpwyd hwynt yn adnabyddus, gan Sir David Brewster, yn ei ail argraffiad ef o Fywgraffiad Newton (mewn dwy gyfrol, pris 24*s.*); ac ar yr ysgrifau hyn, yr wyf yn bwriadu seilio fy rhesymau; ond gan fod y pwnc wedi cael ei ddadleu o'r blaen ar dir arall, bydd yn degwch tuag at y sawl a ddaliant nad oedd Newton yn Wrth-drindodwr, i adolygu y ddadl fel y safai gynt.

Y mae Sir Isaac Newton yn fwyaf adnabyddus fel rhifyddwr ac athronydd anianol; ond yr oedd hefyd wedi talu llawer o sylw i bynciau hanesyddol a duwinyddol. Dywedir am dano gan un Esgob, mai efe a feddai "yr enaid gwynaf o nebawb a adnabu efe erioed;" a dywedodd Esgob arall, ei fod yn "gwybod mwy am yr Ysgrythyrau na hwy oll," h. y., na'r holl fainc Esgobawl (*Brewster* ii. 525). Rhaid, gan hyny, fod golygiadau dyn mor addas i

farnu—mewn gair, y dyn mwyaf ei ddeall yn Ynys Prydain—yn meddu teilyngdod i gael eu hystyried yn bwyllog gan bob dyn meddylgar.

Tua diwedd ei oes, pan yr oedd perygl hyd yn nod iddo ef gyhoeddi golygiadau gwrth-drindodawl, achosodd i draethawd gael ei gyhoeddi yn Holland, ond heb enw yr awdwr, a'r teitl, "Traethiad Hanesyddol yng nghylch dau lygriad hynod o'r Yrgrythyrau" *(Historical Account of two notable corruptions of Scripture)*. Yn hwn, gwadai fod y "tri thyst nefol," yn 1 Ioan v., 7, sef y rhan a roddir islaw * mewn cromfachau, yn perthyn i'r Ysgrythyr lân; a dywedai mai ychwanegiad an-awdurdodol oedd, a wnaed oesoedd wedi amser Ioan. Nid oes achos traethu ei resymau ef; a bydd yn ddigon i rai ddweud eu bod y cyfryw a ddefnyddir gan Undodiaid. Etto, ynghylch y gair "Duw," yn 1 Timothy iii. 16, sef, "*Duw* a ymddangosodd yn y cnawd," gwadai wreiddioldeb y gair, a dywedai, yn unol a'r Parch. O. Evans yn awr, mai gair yn arwyddo HYN oedd yno yn ddechreuol, ac y dylid darllen, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb yr hyn a ymddangosodd yn y cnawd, &c." Addefir yn awr gan bob ysgolhaig addas i drin pwnc o'r fath, mai ffugiad *(forgery)*, neu i ddefnyddio gair ysgafnach, rhwng-osodiad *(interpolation)* yw y cyntaf; ac nid achos i mi ddweud ychwaneg, nac i Luther ei daflu allan o'i argraphiad ef o'r Beibl; i'r cyfieithadau cyntaf ei osod rhwng cromfachau, ac mewn llythyren wahanol; fod y fath feirniaid uchel-ddysg a chywir-ddysg a Bentley a Porson, yn ei gwrthod: ac fod y fath ddynion a Milton, Dr. J. P. Smith, Dr. Adam Clark, Dr. Chalmers, Dr. Davidson, a Dr. Rowland Williams, o Lanbedr, yn cefnogi y gwrthodiad hwnw—nid oes, meddaf, achos dweud rhagor na hyn, i brofi fod dywediad Syr Isaac Newton, ynghylch y tri thyst, yn eithaf cywir.

Oedd yr un mor gywir, ynghylch y testun arall. Y mae pwys awdurdod ysgolheigion yn benderfynol yn erbyn y darlleniad cyffredin; y mae y prif feirniaid oll yn cytuno i wrthod y gair "Duw," yn y fan yma, fel cyfnewidiad diweddar; ac nid oes yn y blynyddau diweddaf, neb o un enw ond duwinydd Annibynol, y diweddar Dr. Henderson, wedi ymdrechu ei amddiffyn; ond nid yw ei awdurdod ef i'w gydmaru ag eiddo Milton, Newton, Wetstein, a Griesbach; mae y beirniaid enwog ar y cyfandir, sef, Lachman a Tischendorf, yn ei wrthod; ac ymhlith ysgolheigion cyfoesol gellir enwi Alford, Tregelles, Ellicott, Davidson, a Rowland Williams, fel dynion o'r dysg uchelaf, ac o'r un farn ar y pen hwn, er eu bod yn Drindodwyr. Oedd y diweddar Dr. J. Pye Smith o'r un farn pan gyhoeddodd yr argraphiad cyntaf o'i waith ar y "Messiah"; ond newidiodd ei farn wedi hyny, a chefnogodd y darlleniad derbyniedig. Yn erbyn y fath res o enwau tryloewon, nid yw yn bosibl i Henderson sefyll; ac y mae Brewster yn traethu fel ei farn bwyllog ef ynghylch y ddadleuaeth, fod Henderson wedi methu dangos rhesymau digonol dros ystyried y gair "Duw" yn yr adnod grybwylledig "fel rhan o wirionedd dadguddedig." (Cyf. ii. 336.) Mae y mwyafrif o ysgolheigion yn awr yn eithaf argyhoeddedig ar y pen hwn, sef, mai y darlleniad cywir yn y Groeg gwreiddiol yw, naill ai *Hos* neu *Ho*, geiriau Groeg cyfystyr i *hwn* neu *hyn*; cefnogir y blaenaf gan y rhan amlaf o'r hen ysgrifau, a'r rhan fwyaf o'r personau rhagenwedig; ond mae

* "Oblegid y mae tri yn tystiolaethu [yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glan; a'r tri hyn un ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear] yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn yn un y maent *yn cytuno*."

yr ysgrifau sydd o'r hynafiaeth mwyaf o blaid darllen *hyn*, gyda Newton, Scott Porter, ac ereill; ac y mae y darlleniad *Duw* yn cael ei gollfarnu yn hollol.

Mewn blynyddoedd a aethant heibio, ac fe ddichon gyda'r werin etto, bernid fod y ddau destun hyn yn rhai o brif seiliau athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist; yn y gred hòno gwnawd ymdrech wrol i'w cadw fel y maent yn awr; a theimlwyd o bob ochr fod Newton, wrth brofi eu bod wedi eu llygru, i raddau pell iawn wedi gwanhau dwylaw Trindodiaid. Ond gan nad oedd Newton, yn y traethawd crybwylledig, wedi dweud dim yn bendant yn erbyn Athrawiaeth y Drindod, cyfododd ymryson ynghylch ei olygiadau; dywedwyd ar un llaw ei fod yn Wrth-drindodwr; a gwadwyd hyny ar y llaw arall. Hònwyd ar un llaw, na fuasai neb ond Gwrth-drindodwr yn dynoethi y gwendidau hyn; ac ar y llaw arall, haerwyd gan yr Esgob Burgess ac ereill, na wnaeth Newton ddim mwy na wnaeth amryw ereill, y rhai oeddent yn Drindodwyr. Haerwyd gan un blaid, nad oedd Newton mewn un man wedi diarddelu y Trindod; ac attebwyd yn y gwrthwyneb, na fuasai neb ond Gwrth-drindodwr yn defnyddio y fath ymadrodd ag eiddo Newton, mewn cyssylltiad â Mat. xxviii. 19, pan y dywed—"Hwn oedd y man lle yr ymdrechasant *hwy* ar y cyntaf i gael allan y Drindod." Wedi gosod allan y dadleuon o'r ddwy ochr, gadawaf y darllenydd i dynu ei gasgliad ei hun. Ond o'm rhan i dywedaf gyda Prof. De Morgan, ac yn unol ag addefiad Brewster, fod dau neu dri o ymadroddion yn y traethawd crybwylledig, na fuasai un dyn a gredai athrawiaeth y Drindod yn debyg o'u defnyddio; ac ar y cwbl barnaf y buasai y casgliad yn deg, hyd yn nod oddiwrth y traethawd hwn, fod Newton yn ei galon yn Wrth-drindodwr, tra nad oes un gair o'i enau ef a ellir ei bleidio yn y gwrthwyneb.

Ond nid wyf yn ymddibynu ar yr ymadroddion hyn; gan fod tystiolaeth bendant ar y matter dan sylw. Oedd Whiston, cyfieithydd Josephus, yn gyfoeswr a Newton, ac yn adnabyddus ag ef; a dywed efe, fod Newton "yn selog dros y Bedyddwyr yn gystal a'r Eusebiaid a'r Ariaid."* Y mae tystiolaeth Mr. Hopton Haynes i'r un perwyl. Tra'r oedd Newton yn feistr ar y *mint* (lle y bathir aur, arian, a chopr y deyrnas), oedd Haynes mewn swydd dano ef, ac yn gyfarwydd iawn o hono. Oedd Haynes yn *Humanitarian*, h. y. yn credu mai dyn yn unig oedd Iesu Grist; ac ymddyddanai Newton ag ef yn fynych ar bynciau crefyddol; a dywed efe i'r gwr enwog hwnw ddefnyddio yr ymadrodd canlynol:—"*Daw yr amser pan y bydd i athrawiaeth yr ymgnawdoliaeth, fel y derbynir ef yn gyffredin, gael ei wrthod fel peth mor hollol afresymol a thraws-sylweddiad.*" Ac ym mhellach, dywed efe, "nid oedd Sir Isaac Newton yn credu yn rhag-hanfodiad ein Harglwydd, gan ei fod yn Socinian (fel y galwa hwynt) yn y mater hwnw; ac yr oedd efe yn gofidio for Mr. (wedi hynny Dr.) Samuel Clarke yn cofleidio Ariaeth, yr hon athrawiaeth, yr ofnai efe, a fu ac a fyddai yn rhwystr mawr i ledaeniad a chynnydd Cristnogaeth."† "Cynhaliodd Haynes, meddai De Morgan, fuchedd ddifrycheulyd fel swyddog gwladwriaethol, am hanner can mlynedd;" ac enwir ef gyda chanmoliaeth uchel gan Lord Macaulay, (*History*

* Math o hanner-Ariaid oedd yr Eusebiaid, ac yn cael yr enw oddiwrth Eusebius Esgob Nicomedia, yr hwn, yn amser y *Council of Nice*, O.C. 325, a wrthwynebai Athanasius, heb gymmeryd plaid Arius; ac a gredai yn Nuwdod Crist, ond a wadai ei fod o'r un sylwedd, ac yn ogyfuwch a'r Tad.

† *Quoted in Lindsey's Sequel*, t.d. 18.

of England, iv. 703). Yr oedd gan hynny yn dyst credadwy, ac y mae ei dystiolaeth ef yn profi yn eglur i fod Newton yn dal golygiadau Sosiniadd.

Ond ceir y tystiolaeth llawnaf a mwyaf boddhaol, ynghylch golygiadau y dyn mawr hwn, yn yr ysgrifau duwinyddol a adawodd ef ar ei ol, pa rai oedd wedi eu ysgrifenu yn ofalus, ac nad oedd, ym marn Sir David Brewster, yn dymuno eu celu, gan iddo eu gadael yn bwrpasol, wedi iddo losgi amryw o'i bapyrau eraill ychydig cyn ei farwolaeth. Mae ei olygiadau yn fwyaf amlwg mewn rhes o osodiadau, y rhai ydynt fel y canlyn :—

I. "Y mae un Duw, y Tad, yn tragywyddol fodoli, yn Holl-bresennol, Holl-wybodol, Holl-alluog, Creawdwr nef a daear; ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.

II. "Y Tad yw yr anweledig Dduw, yr hwn na welodd un llygad, ac ni ddichon weled. Y mae pob bodau ereill weithiau yn weledig.

III. "Y Tad sydd yn meddiannu bywyd ynddo ei hun; ac efe a roddodd i'r Mab gael bywyd ynddo ei hun.

IV. "Y mae'r Tad yn holl-wybodol, ac yn meddu pob gwybodaeth yn wreiddiol yn ei fynwes ei hun; ac efe a drosglwydda wybodaeth o betiau dyfodol i Iesu Grist; ac nid oes neb yn y nef nac ar y ddaear, na than y ddaear yn deilwng i dderbyn gwybodaeth o bethau dyfodol yn ddigyfrwng oddiwrth y Tad, ond yr Oen. Ac am hynny tystiolaeth Iesu yw ysbryd prophwydoliaeth, a Gair neu Brophwyd Duw yw Iesu.

V. "Y mae y Tad yn ansymudol; ac ni all un lle fod yn llawnach nac yn waeach o hono ef, nag y mae trwy angenrheidrwydd tragwyddol natur. Y mae pob bod arall yn symudol o le i le.

VI. "Y mae pob addoliad, pa un ai mewn gweddi, moliant, neu ddiolchgarwch, ag oedd yn ddyledus i'r Tad cyn dyfodiad Iesu, yn ddyledus iddo etto. Ni ddaeth Crist i leihau addoliad ei Dad.

VII. "Y mae gweddi yn fwyaf dylanwadol, pan y cyfeirir hyn at y Tad yn enw y Mab.

VIII. "Yr ydym i ddychwelyd diolch i'r Tad yn unig, am ein creu, a rhoddi i ni fwyd a dillad, a bendithion ereill y fuchedd hon; a pha beth bynag a ddiolchwn am dano, neu a ddymunwn iddo ef wneud drosom, yr ydym i ofyn oddiwrtho ef yn ddigyfrwng, yn enw Crist.

IX. Nid oes achos i ni weddio ar Grist i fod yn eiriol drosom. Efe a fydd yn eiriol drosom os gweddiwn yn iawn.

X. "Nid yw angenrheidiol er Iachawdwriaeth, i gyfeirio ein gweddiau at un arall ond y Tad, yn enw y Mab.

XI. "Nid yw rhoddi enw Duw i angylion neu frenhinoedd, yn groes i'r Gorchymmyn Cyntaf; ond y mae rhoddi yr addoliad dyledus i Dduw yr Iuddewon, i angylion neu frenhinoedd, yn groes i'r gorchymyn. Ystyr hwnw yw, Ni chai addoli un Duw ond myfi.

XII. "I ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef. Hynny yw, yr ydym i addoli y Tad yn unig, fel Duw Hollalluog, a Iesu fel yr Arglwydd, y Messiah, y Brenin Mawr, Oen Duw yr hwn a laddwyd, ac y sydd wedi ein gwaredu ni â'i waed, a'n gwneud yn Frenhinoedd ac Offeiriaid."—*Brewster, cyfrol* ii. 349, 350.

Mewn ysgrif arall a arwyddai ef, Byr-draeth o'r Wir Grefydd (*A Short Scheme of True Religion*), trinia y pynciau Duwioldeb, Atheistiaeth, Eilunaddoliaeth, a Dynoliaeth, neu ein Dyledswydd tuag at ein cyd-ddynion; a therfyna y bennod ar Eilunaddoliad gyda'r geiriau canlynol :—

"Yr ydym gan hynny i gyfaddef un Duw, anfeidrol, tragwyddol, hollalluog, Creawdwr pob peth, cwbl-ddoeth, cwbl-gyfiawn, cwbl-dda, a chwbl-sanctaidd. Rhaid i ni ei garu ef, ei ofni ef, ei anrhydeddu ef, ymddiried ynddo, gweddio arno, talu diolch iddo, ei foli ef, sanctaeiddio ei enw, ufuddhau ei orchymynion, a neillduo amserau at

ei wasanaeth ef, fel y cyfarwyddir ni yn y Trydydd a'r Pedwerydd Gorchymyn; canys hyn yw cariad Duw, bod i ni gadw ei orchymynion; a'i orchymynion ef nid ydynt drymion, 1 Ioan v. 3. A rhaid i ni wneud y pethau hyn, *nid i unrhyw gyfryngur rhyngddo ef a ni, ond iddo* ef *yn unig*, fel y rhoddo ofal am danom i'w angylion, y rhai gan eu hod yn gydweision a ni, a foddlonir trwy yr addoliad a roddwn i'w Duw hwy. Hyn yw y rhan gyntaf a phwysicaf o grefydd. Hyn a tu bob amser, ac a fydd yn wastadol, yn grefydd holl feibion Duw, o ddechreuad byd ddiwedd y byd."—*Brewster, cyf.* ii *tudal* 348.

Mae amryw o ysgrifau ereill teilwng iawn o ystyriaeth yn llyfr Brewster; ond bydd hyn yn ddigon i argyhoeddi un dyn rhesymol a diragfarn.

Wele, yn awr, olygiadau crefyddol Syr Isaac Newton; a rhaid i bawb addef, fel y tybiaf, eu bod yn Sosiniaeth eglur a phenderfynol. Y maent yn eglur wrthod athrawiaethau y Drindod a Duwdod Crist; a thra maent yn gwahanu yn hollol oddiwrth ddaliadau y mwyrif o'r byd crefyddol, y rhai a alwant eu hunain yn "orthodox" neu union-gred; nid oes yneddynt ddim na all, ac nad yw Undodwyr yn gyffredin yn eu haddef a'u proffesu.

Y mae Syr David Brewster yn Ysgodwr, ac yn perthyn i Eglwys Uchel-Galfinaidd Scotland; ac am hyny y mae wedi ymgadw rhag dweud llawer ar y pen hwn yng nghorff ei waith; ond addefa fod "Union-grediniaeth" Newton yn agored i ddrwg-dybiaeth; ac ni ellir mwyach ei alw yn Drindodwr. Ond yn ei ragymadrodd dengys ei feddwl yn eglurach. "Ni allaf," medd ef, "ochelyd rhag cyfeirio at olygiadau crefyddol Syr Isaac Newton. Yn y bennod berthynol iddynt cyffyrddais yn ysgafn ac yn anewyllysgar â mater mor dyner a hwn; ac wrth gyhoeddi y mwyaf pwysfawr o'r ysgrifau ym mha rai y cynnwysir y golygiadau hyn, ni wnaethum ond ychydig rhagor na'u cyflwyno hwynt i sylw y darllenydd, *er eu hod yn groes i'm golygiadau i*, ac fel y credaf, i opiniynau y rhai mae ei gofiadwriaeth yn anwylaf iddynt, ni theimlais yn gyfiawnhaol, pe buaswn o'r dymuniad hwnw, i mi gelu oddiwrth y cyhoedd, *yr hyn y maent er ys amser wedi ei dybio*, a'r hyn a fuasent rhyw bryd yn sicr o gael ei wybod. Ni feiddiaf i gyhoeddi fod hynny yn gyfeiliornus, yr hyn a dybiai meddwl doniol Newton ei fod yn Wirionedd. Yr Athraw Mawr yn unig all ddysgu beth sydd Wirionedd; ac o flaen ei orseddfainc ef yn unig y penderfynir y pynciau, cynnwysedig yn fynych o eiriau yn unig, a gadwasant ar wahan y doethaf a'r goreu o ddynion." (Cyf. i. t.d. 15.) Mae y sylwadau hyn yn deilwng o'n hawdwr; a chant dderbyniad groesawus gan bob darllenydd pwyllog.

Oedd Brewster yn ofni dweud, mewn geiriau eglur, beth oedd barn Newton; ond nid oes achos i ni fod mor dyner ag y bu efe nac i betruso dweud yn bendant mai Sosiniaeth oedd ei farn ef. Rhaid fod hyn yn awr yn amlwg, i bob darllenydd a graffodd ar yr erthyglau rhagflaenol; ond i wneud sicrwydd yn fwy sicr fyth, dyfynaf ychydig o dysticlaethau dynion enwog, y rhai oeddent wybyddus o'i ddaliadau ef, ac yn deilwng i roddi barn am danynt. Y mae y Dr. Thomson, yn ei "Hanes y Gymdeithas Freiniol," yn ysgrifenu yn eglur ar y pen hwn. "Nid oedd, medd efe, ei olygiadau crefyddol yn uniongred; fel enghraifft, *nid oedd yn credu yn y Drindod.* Hyn a rydd i ni y rheswm paham y barnai Horsley fod ysgrifau Newton yn anaddas i'w cyhoeddi," (t.d. 284.) Nid yw traethiad Dr. Chalmers yn llawn mor groew; ac nid oedd nemawr o le i ddisgwyl y buasai; o herwydd yr oedd wedi ei ganmol hyd y seithfed nef, nid yn unig fel athronydd ond fel duwinydd hefyd; ac am hynny nid peth blasus i ddoethor Calfinaidd oedd gorfod llyncu ei eiriau ei hun, ac addef fod yr athronydd mawr yn Undod-

wr. Ond dywed Dr. Watson, gynt yn Esgob Llandâf, fod Newton a Locke yn cael eu cyfrif yn Sosiniaid." (*Appendix to Theolog. Tract*, vol. vi.) A dywedodd Lord Brougham, barn yr hwn ni amheua neb, yn Nhy yr Arglwyddi, Awst 4, 1854, yr un peth. "Y mae yn eithaf sicr, medd efe, fod Newton yn Undodwr, ie Undodwr mor drwyadl a fu erioed yn meynychu Capel Essex Street Caiff fy ngyfaill dysgedig ac anrhydeddus (Lord Campbell) weled hyn yn cael ei brofi gan Syr David Brewster, allan o ysgrifau Newton, pa rai, medd y gwr dysgedig, ni adawant un amheuaeth ar y mater."

Bydd y ffeithiau hyn, fel y tybiaf, yn eithaf digonol i brofi yr haeriad a wnaethum, ac i gyfiawnhau Undodwyr i ystyried Newton yn un o'u brawdoliaeth hwy; ond er mor ddysglaer yw enwau Milton, Newton, a Locke, ac er cymmaint yw y llewyrch a dywalltant hwy ar y ffydd Undodaidd, ni ddylid ystyried ein bod yn gosod mwy na'r pwys dyledus, hyd yn nod i'w cefnogaeth hwy i'n golygiadau ni ynghylch yr athrawiaethau crybwylledig; gan nad yw Undodwyr yn galw neb yn feistr ond "y dyn Crist Iesu."

THOS. STEPHENS.

EIN GWLAD.

"Y mae yr hwn a wnelo les sylweddol i'w wlad, yn gadael perarogl ei enw ar ei ol, dros gant o oesoedd; ond yr hwn a ymddygo yn anffyddlawn yn ei swydd, sydd yn gadael ar ei ol enw ag y bydd ei ddrygsawr yn parhau dros gannoedd o filoedd o flynyddau."—*Un o Ymerawdwyr China.*

YMDDYDDAN RHWNG ROBERT A GRUFFYDD.

ANWYL ROBERT.—A yw dy frwdfrydedd cenedlgarol yn parhau yn ddigyfnewid? Nid ydym er ys bagad o ddyddiau bellach wedi cael hamdden i ddadlau helyntion a rhagolygiadau ein hen Gymru anwyl.

Ydyw, fy nghyfaill, GRUFFYDD,—Yr wyf yn cario gyda mi o hyd y wlad a'm magodd. Nid oes argoel y bydd i'r teimladau a ddihunwyd ynof gyntaf o fewn tu ddau fy ngwlad, farw, tra es yr ymollynga pob teimlad fel eu gilydd i gysgadrwydd y bedd; ac y mae yn gysur genyf feddwl, fy mod yn meddu ynot ti ar un a gydymdeimla, hyd yn oed pan na chydolyga yn hollol â mi, mewn pob mesur o bwys, tuag at wella a dyrchafu ein cenedl. Yr wyf wedi bod yn meddwl eryn lawer yn ddiweddar, am sefyllfa bresenol Cymru. Yr wyf yn canfod ynddi lawer ag sydd yn anfanteisiol a ddiffygiol, ond mwy yn rhoddi sail dda i obeithio nad yw ei gogoniant wedi, nac ar tygwth ymadael. Nis dichon i un dyn ystyriol, debygwyf, amheu fod y cyfnod presenol gyda'r pwysicaf o bob cyfnod ag yr aeth ein cenedl erioed trwyddo—ar ddwy olwg yn neillduol, ei *lenyddiaeth* a'i *duwinyddiaeth*; y blaenaf o ba rai a gynrychiolir gan yr argraffwasg; yr olaf gan yr areithfa. Y ddau hyn yn Nghymru, fel yn mhob gwlad oleuedig, yw y galluoedd ag ydynt i gwblhau ei hadgenedliad a'i dyrchafiad; ac arnynt y dylai fod llygad pob un awyddus i weled ei gydgenedl yn meddiannu y safle, nad oes achos i ddim ond difrawder ac esgeulusdod gwaradwyddus, ei chau oddiwrthi. Mae yn arferiad yn ein plith i ganmol a mawrygu ein *iaith*, ac ni ddymunem er y byd ddywedyd dim yn ddiraddiol am iaith mor hen ac ardderchog; ac i

siarad am ei pharhad diderfyn, ac i estyn mesur ei hoedl yn ol ac yn mlaen cybelled a thragywyddoldeb. Ymddengys i mi, wedi y cwbl, fod llawer o ddwli yn cael ei siarad ar y pen hwn, gan rai na wyddant well, a chan ereill a ddylent wybod llawer gwell. Mae ystyriacthau yn mherthynas i lenyddiaeth gwlad yn deilyngach o sylw a dadleuaeth nag iaith, yn enwedig gyda ni, ar adeg, pan y mae llif-ddorau y Saesneg wedi eu codi, ac yn arllwys i mewn arnom yn feunyddiol gyflawnder o bob gwybodaeth. Mae iaith Lloegr fel ei harfau, yn anorchfygadwy; ac y mae eiddo yr hen Frythoniaid yn gorfod rheddi ffordd iddi, tra yr ymddengys llaweroedd fel yn dysgwyl i'r un peth ddygwydd yn Mrydain ag yn China, lle y mae y gorchfygwyr, er yr oesau boreuaf, bob amser, wedi mabwysiadu iaith y gorchfygedig, a thrwy hyn, megys yn amgylchiad Rhufain a Groeg, gael eu gwneuthur yn ddarostyngedig mewn ystyr, pan eu hunain yn darostwng. Doethineb yw ymgymmodi â chyfnewidiadau nad oes genym fodd i'w gochelyd na'u hattal. Mor ofidus yw clywed dynion yn defnyddio ein iaith glodwiw, fel pe na byddai iddi wasanaeth uwch na difrio y Saeson! Mae ei hawl wedi aros yn y nawngylch oesau weithion; ac os yw yn awr yn gostwng at fachludiad, a ydym i dybied nad oes ond tywyllwch tragywyddoldeb i ganlyn?

G.—Cynghorwn di fod yn ofalus dy ymadroddion, neu barotoi dy hun i dderbyn taranfolltau cocheirias a marwol Jupiter, yr orsedd Gymreig. Ymddangosi i dybied fod ein iaith yn y pangfeydd diweddaf, ond coelia fi, gall dy feddargraff di, a dy blant, a'th wyrion, a'u hwyrion hwythau, gael ei ysgrifenu yn y Gymraeg; a bydd yn eithaf dealladwy i'r sawl a fyddant yn fyw i'w ddarllen. Mae bywyd eath yn yr hen lances, a bydd fyw yn hir, pe ar ddim ond ar sugno gwaed y Saeson. Cyfansoddodd Campbell, y bardd Ysgotaidd, ganiad ar y "Dyn Olaf!" Rhyfedd na byddai yr Eisteddfodau wedi cynyg y Gadair am yr Awdl oreu ar y *Cymro* olaf! Ond gyda hwynt mae y ddau destyn yn gyfystyr. Dychymyga i ti dy hun, y *Cymro olaf*, ar un o gopäau Plinlimon, neu begwn uchaf yr Wyddfa, yn clincian y cydseiniaid, yn gymmysg â chlindarddach a thwrf yr elfenau.———Ond gwelaf di yn anesmwytho. Wel, i siarad o ddifrif, yr wyf yn cydfarnu a thi fod yr adeg hon yn bwysig iawn i Gymru, gyda golwg ar ei llenyddiaeth a'i duwinyddiaeth. Tra nad wyf yn myned i ymddyddan am yr olaf, anturiaf draethu fy nhyb ddiragfarn am ei llenyddiaeth—fod ynddi alwad am ddiwygiad dirfawr. Gwn yn well na chymeryd arnaf fod yn anwybodus o'r llawer cynyrchion enwog a gynwysa, yn enwedig mewn barddoniaeth; ond a gosod y cyfan gyda'u gilydd, pwy yn wir, a garai gael ei gyfyngu i gylch mor gul? Nis gallem ddysgwyl, ac ystyried yr amgylchiadau ag y mae ein cenedl wedi myned trwyddynt, i'r peth fod yn wahanol. Y rhyfeddod yw fod ein cenedl helbulog wedi bod mor gynyrchiol. Mae llenyddiaeth yn gofyn am seibiant, llonyddwch, a dwys fyfyrdod. Ond ambell i law all chwaren y cleddyf a'r pin ysgrifenu yn ogystal. Yr oedd duwies doethineb yn mhlith y Rhufeiniaid yn hen wyryf ddifrifol, foneddigaidd, dawel, a'r ddylluan unig a meddylgar, ei haderyn cyssegredig. Ond y mae eisiau i'n gwlad deimlo nad yw ei llenyddiaeth yn holl-ddigonol, a bod mil-fil o bethau mewn nef a daear, nad yw eto wedi cyffwrdd â hwynt, a bod galwad uchel am radd helaethach o gymhwysder a medr rhagbarotoadol yn yr ysgrifenwyr, er cyfleuwi anghenion meddyliol eu cydwladwyr. Dyweder a fyner, mae gofyn am nifer luosocach o ddynion dysgedig—gwir ddysgedig—dynion deallus yn amrywiol ganghenau gwybodaeth; yn medru y gelfyddyd o ysgrifenu yn amlwg, enill-

gar, a doniol; dynion a rhyw gydymdeimlad rhyngddynt â dymuniadau ac anadliadau mwyaf anwyl pob dyn; ysgrifenwyr mwy *dynol* a llai duwinyddol; cyfoethog mewn meddyldd ychau, ac nid brawddegau ystrydebedig difin; dynion mwy hylaw at feddwl na chyfieithu; heb lediaeth Saisnigaidd wrth ysgrifenu a siarad Cymraeg; dynion yn medru dysgu heb bregethu; dynion hyfforddus i arwain y werin allan o lawer o'u hen draciau, ac i'w gosod ar ffordd newydd a naturiol o edrych ar faterion; dynion mwy byd-eang yn eu cydymdeimladau, rhyddach a mwy cynwysfawr eu golygiadau; dynion yn gallu myned i yspryd pob testyn gydag ieuenctyd a ffresder a swyn, heb beri i bob tudalen sawru o fwg eu haneddau; dynion yn credu nad yw y gwirionedd sydd eiddynt yr oll o'r gwirionedd, mwy na'r rhan fechan o'r wybren y syllant arni oddi-rhwng bryniau eu cymydogaeth, yr oll o'r wybren; ond fod y blaenaf yn fyth ymledol a bythgynyddol, fel ag yr ymestyna wybren las, nid yn unig uwchben eu gwlad arddurnol hwy, ond uwch pob gwlad fel eu gilydd, o begwn y gogledd hyd begwn y de. Ond siarada di—gwyddost mor grwca a byrbwyll wyf fi bob amser.

R.—Os wyf yn dy ddeall, mae gwir lawer yn yr hyn a ddywedi. Eto ein dyledswydd yw rhoddi barn dirion ar ymroadau cenedl ag sydd yn llafurio dan gynifer o anfanteision. Mae rhanau o'n llenyddiaeth yn arw a thrwsgl, yn anghysylltiadol ac anghyson, yn seinfawr a disynwyr, yn eiddil a glastyrnaidd, yn gul a sectol, yn fasw a gwrachiaidd; ond oni ellir dywedyd hyn gyda'r un priodoldeb am lenyddiaeth pob gwlad i raddau mwy neu lai? Mae clustiau yr asyn yn ein cyfarfod bron yn mhob man. A rhaid i ni ddal mewn cof, nad ein hamddifadrwydd o *ddysg* yn unig sydd wedi achosi prinder a gwaelder ein llenyddiaeth; ond hefyd anfedrusrwydd i drefnu a dosparthu ein gwybodaeth, ac i'w gosod allan mewn iaith glir, a'i bywiocâu ag arddull ysgafn a doniadol—amddifadrwydd o *wrtaith celfyddydol (artistic culture)*. Nid oes nemawr o sylw wedi ei dalu i efrydiaeth o'r meddwl dynol. Cred y rhan fwyaf fod gan ddyn bum synwyr corfforol, a phum synwyr eneidiol, mor dyn ag y credant bum pwnc Calvin; ac am yr un rheswm, sef heb unrhyw reswm neilldiol. Darllenais yn ddiweddar mewn cyhoeddiad Cymreig, o gryn ymhoniad, "fod Dewi Wyn fel archoffeiriad i gyfryngu rhwng natur ac *enaid feddyliol* dyn." Ac er y proffesir credu mewn *pum* synwyr eneidiol, siaredir yn fynych am y *deall*, fel pe byddai y deall yr oll yn oll, a dyn yn ddim ond rhyw beiriant cawraidd i ddiblisgo a malu, neu i forthwylio ac asio meddyl-ddrychau, heb ddymuniadau, na chyffroadau, na serchiadau, na thueddiadau yn y byd. Yn mhellach, tra heb ystyried y telerau, ar ba rai y mae pob gwybodaeth yn gyrhaeddadwy, amlwg yw, mai anmhosibl i'n hysgrifenwyr fod yn ddim ond athrawon deillion, nac estyn cynnorthwy lle y dichon fod mwyaf o angen am dano. Yn lle ymaflyd â chwestiynau ag y mae yn nghyrhaedd y meddwl eu deongli, gwastraffant eu cywreinrwydd a'u hamser i olrhain yr anolrheiniadwy, a diweddant yn gywir lle y dechreuasant—yn y niwl. Nid oes, oblegyd hyn, gyfartaledd rhwng y cynyrchion a berthynant i'r byd nesaf â'r rhai ydynt ar destynau cysylltedig a'r byd hwn. Mae buddiannau *(interests)* tragywyddol yn cael eu codi yn uchel ar draul, a gadael bron dros gof, eiddo y byd presenol. Ceir gweled y gorphwylledd duwinyddol yn ymaflyd yn mhob bugail a chloddiwr a glöwr, nad pa mor floesg ei dafod, neu drwsgl ei bin, neu hwyrdrwm ei amgyffrediad. Esgeulusir hanesiaeth, athroniaeth, a'r gwyddorau ag ydynt wedi troi allan er bendith ac anrhydedd anmhrisiadwy

i genedloedd ereill. Edrychir ar destynau celfyddyd a gwyddor fel pe byddent o'r ddaear yn ddaearol, a dim ond cynyrch galluoedd dynol. Ni cheisiant gael o'r ddaear ddim ond modd i borthi a chysuro y rhan farwol; mae y ddaear lle y mae, er budd a boddiant y corff yn unig; etifeddiaeth dymorol dyn yw, wedi ei galw allan i res y creadigaethau ryw chwe mil o flynyddau yn ol, ac i gael eto ei chwyrnellu i'r annherfynol wagleoedd, neu ei suddo i waelodion diwaelod dyfnderoedd diddymdra, nas gwyr neb pa mor gynted. Gogoniant dadwinol yw eiddo anian; nid oes dim yn neilldnol a wnelo dyn â phrydferthwch golygfeydd daearol; cedwir yr hen ddaear i droi a threiglo yn y gwawl, i fod yn fagwrfa i fyd o gyrff, ac nid yn lle o ddysgyblaeth ac addysgiaeth ysprydoedd anfarwol.

G.—Yr wyt tithau, Robert, dipyn yn wasgaredig ac anghysylltiadol heno. Ymddengys rhai o dy sylwadau i mi ychydig yn gymysglyd, a rhai yn ymylu ar y rhyfygus a'r anffyddaidd. Yr oeddwn wedi tybied dy fod yn myned i amddiffyn llenyddiaeth a dull dy wlad o feddwl pan yr awgrymit fy mod i braidd yn annhirion yn fy narluniadau. Y gwir yw fod yn hawddach canfod beiau na'u gwella, ac mai rhwydd yw codi brychau i'r golwg, os dechreuir. Yr wyt yn peri i mi feddwl fod rhyw gydgyfarfyddiad o anhwylderau yn porthi ar gryfder a bywyd ein llenyddiaeth; ac os felly, dylit ti a minau ymddwyn mor gynil a gochelgar ag y bo yn bosibl, wrth benu ar feddyginiaeth. Mae fy mhrofiad cyfyng i wedi dysgu i mi, nad gwiw tori ar draws hen systemau a dulliau o feddwl; newidia y bobl mo'u duwiau nes y byddont yn eu golwg wedi myned yn warthus o ddrwg; a pheryglus yw myned cydrhwng y bobl a'u duwiau, rhag i'r blaenaf felldithio, a'r olaf gospi a llwyr ddifetha. Credaf gyfiawnder dy achwyniad ar amddifadrwydd ein cenedl o wrtaith celfyddydol, wrth yr hyn y deallaf di i ofyn, yr ystad hono i ba un y dysgyblir y galluoedd meddyliol, trwy ymdrech ac ymarferiad i osod allan o flaen ereill, mewn rhyw ddull, rhyddiaith neu farddoniaeth, ein syniadau a'n barnau ar unrhyw bwnc. Fel engraifft, os mai traethawd fydd y cyfansoddiad, ei drin yn gelfyddydol fydd ei drin yn y modd goreu er cyrhaedd amcan traethawd, sef trwy wneuthur y testyn yn oleu, ei berthynasau yn glir, a'i wahanol ranau i sefyll allan mewn eglurder y naill oddiwrth y llall; mae ei gynllun i fod yn syml, ei iaith yn fanwl, a'i orpheniad i fod yn gyfryw ag i drosglwyddo gwybodaeth heb gynhyrfu y nwydau, na phentyru addurniadau, a fyddant yn anhebgorol i effaith cyfansoddiadau ereill. Trinid darlith, neu bregeth, neu anerchiad, neu ymddyddan, yn wahanol, a chaniad neu gathl yn wahanol eto. Yr wyt ti yn meddwl fod y Cymry yn rhy barod i redeg y naill fath o gyfansoddiad i'r llall, a gwneuthur math o anghenfil anghydryw o bob un; eu bod yn eu cathlau serch yn rhigymu desgrifiadau hir-wyntog ac anmherthynasol; yn eu pryddestau yn dirwyn hymnau a charolau ar eu gilydd; yn eu traethodau yn rhoddi bodolaeth i ryw groes-gynyrch rhwng pregeth, araith, ac esponiad; yn eu pregethau yn efelychu llawer o brudd a digrif chwareuaeth yr esgynlawr *(stage)*, a bod cymeriadau yr ychydig ffug-hanesion sydd ganddynt yn fwbachod dilun ac anhynod, o'r un cyfluniau a phrydweddau y naill a'r llall, heb yr un yn sefyll allan yn y cyfansoddiad, fel y poplyswydd yn y perthi. Mae cyhuddiadau o fath y rhai hyn yn dd berygl ddigon rhyngot ti a minau, fel hyn ar ein haelwydydd, ond pan gyhoedder hwynt, dylent gael eu cynnal gan ryw engreifftiau pennodol.

R.—Wel, os caf fywyd ac iechyd, dichon y cynygaf at hyny. Nid yw y

mater eto ond yn rhyw ymffurfio yn fy meddwl o dryblith y cymmysg elfenau. Ond a wyt ti ddim yn meddwl fod golygiadau ein cenedl yn ddiflas, celyd, a materol iawn? A dybi eu bod yn y cyffredin yn meddu ar "lygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder digon beiddgar i gydfyned ag anian"? A wyt ti o ddifrif yn ystyried eu bod yn gwneyd y goreu o'r byd hwn, lle tyf y lili, nad oedd y mwyaf rhwysgfawr o freninoedd y dwyrain, yn ei holl ogoniant, i'w gyffelybu iddi mewn tegwch? I bwy mae y seiniau melusion, a ddeffry yr awel ar danau y goedwig, yn dwyn hedd? I I bwy mae peroriaeth y ser-gylchoedd yn awr yn glywadwy? Pa gynifer a dramwyant y llwybrau i ddirgel ystafelloedd anian, lle y dadguddia hi ei phrydferthwch i'w dewisol rai? Onid yw dynion wedi myned yn hyf arni, ac wedi ymgynefino, hyd at galon-galedrwydd, â'i rhyfeddodau? Ai nid yw trwst y melinau, ac eirias gynddeiriog y ffwrneisi, ac ysgrechiadau oernadus olwynion y tân-gerbydau, a tharanllyd ddisgyniadau y morthwylion, wedi byddaru clustiau yr oes bresenol i'r llef ddystaw fain a barai i galon oesau ieuengach y ddaear ddychlamu o barchedigaeth a llawenydd annbraethadwy? A yw dynion bellach yn aros gyda'r synfyfyrdod cyntefig i wylio y rhyfeddodau a orweddant o fewn eu hunain yn nirgel gilfachau yr enaid? Yn iaith un o'r hen ysgrifenwyr Cymreig, "Pwy yn awr sydd yn clywed dirgelwch y daran a'r gerdd nefol yn nghyd ynddynt eu hunain? Pa gynifer a adwaenant yr iaith sydd trwy holl gyrau naturiaeth, neu y naturiaeth dragywyddol yn llefaru—y wir Hebraeg a'r unig wir ysgoleigdod, a'r Urim a'r Thummim, sef y goleuni sydd yn llosgi i fynu tua pherffeithrwydd yn y fonwes, a thragywyddol hyfrydlais Duw, a'r angylion sanctaidd."

G.—O, dywedaf wrthyt yn union; yr wyf yn dra sicr yn fy meddwl fy hun nad yw ein gwlad mor bell yn mlaen ag y myni di iddi fod, yn enwedig mewn cymundeb agos ag anian. Mae hi yn beth a chwenychi di alw yn *faterol*, sef yw, yn ol y deffiniad cyffredin o fater, yn caru yr hyn a ellir ei weled a'i bwyso a'i brisio. Chwarddant am dy ben di yn son am flodau.—Yr wyf yn cofio fel ddoe am yr amser dyddan, dedwydd a dialw yn ol, pan yr oedd pumed gwanwyn fy oes yn ymsymud droswyf gyda'i wres tyner a'i awyr falmaidd. Yr oedd fy nghalon yn cyd-guro â chalon fawr gynhes anian. Yr oedd pob peth yn newydd i mi, fel y greadigaeth pan yn ffrès o law Hollalluawgrwydd Teimlwn fy hun gartref gyda'r blodau, er na wyddwn gymaint a'u henwau. Gwnaethum wely bychan o friallu a breilw, a phob blodeuyn arall a allaswn gasglu o erddi fy nghymydogion. Yr oeddwn yn ymdroi yn eu plith ac yn gwledda ar eu harddwch, pan ddywedwyd wrthyf fod yn rhaid i mi daflu ffwrdd y blodau, er cael lle i *osod cloron!*—nad oedd tir i'w wastraffu ar flodau ac anialwch o'r fath, fod yn rhaid cael yr ardd i ddodi ynddi rywbeth o *ddefnydd*. Rhaid oedd ufuddhau, a diwreiddio y blodau pan ddechreuent ymloni yn eu tir newydd. Nis gallwn lai na gwlychu eu dail llyfnion a'u blagur teg â'm dagrau, nid heb ryw syniad, *os mai* gwastraffu y tir oedd plannu blodau ynddo, fod rhyw Un gwell a mwy na mi yn enog o wastraff anghyffredinol. Yr oedd yr ardal yn brydferth ddigon, gyda'i gelltydd tewion o dderw, ei phinwydd pendefigaidd, ei llethri gwylltion, a'i nentydd iachusol; ond dysgid fi i edrych ar y cwbl yn unig mor bell ag y gallent ateb rhyw ddyben i wasanaethu anghenion y corff. Gall mai olsyniad yw, ond ymddangosaf i fy hun fel y pryd hwnw yn ceisio dirnad rhyw ystyr uwch, a rhyw arwyddocâd mwy dwfn yn y gwrthrychau o'm hamgylch, ac yn caru syllu bob yn awr ac eilwaith yn daer a difrifol ar

wyneb anian, er darllen yn ei phrydweddau ryw ran fechan fechan o'r gogoniant anfesurol a orweddai wrth gefn, ac o dan y cwbl, ac o'r Cariad anfeidrol a wisgai ei hun â mantell amryliw a blodeuog y greadigaeth.

R.—Gall llawer yn ddiau adrodd cyffelyb ystori. Mae mewn dyn wrth natur gyfaddasrwydd i fwynhau y byd oddiamgylch iddo, a gwerthfawrogi pob amlygiad o allu, doethineb, a daioni dwyfol. Teimla ei fod wedi ei eni ar y ddaear i fod yn ddedwydd, trwy gydymffurfio â deddfau ei fodolaeth; nid i alaru ei dynged, nid i gyhuddo ac achwyn arno ei hun, nid i ymgydio mewn ffrae â phawb o'i gydfforddolion, nac i ddrwgliwio yr orsedd trwy diriondeb yr hon y mae *lle* y mae, ac y mae *yr hyn* yw. Os oes Duw, y mae yn fôd daionus; os daionus, mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd. Nid poenfa cyrff ac eneidiau dieuog, ynte, yw y ddaear. Y mae yn lle o brawf, ond nid, o herwydd hyn, yn lle o annedwyddwch a phoen. Paham y myn dyn fod yn druenus? Nid oblegyd ei natur. Ei ogwyddiad hunan-gynhyrfiol yw gweled pob peth o ddaioni yn llawn. Mae ei ddeall mor barod i dderbyn gwirionedd, ei gydwybod i gymeradwyo rhinwedd, a'i ddychymyg i ymhyfrydu mewn prydferthwch, ag yw prenau y goedwig i dyfu tua'r nefoedd, a'u colfenau i ymledu trwy yr awyr gwmpasol. Systemau annaturiol, culion, unochrog, afiach, yn unig a allant wasgu tuag i lawr a chrebachu natur mor ardderchog—systemau wedi eu seilio ar gyfeiliornad, ac yn cael eu cynnal gan zel anhyfforddedig—systemau a fras dyfant ar faeth pob gwaddod a gwaelodion. Os cân yw bywyd, ai galargan gwynfanus, undonol, yw? Os ymdrechfa, ai ymdrechfa lle y mae pawb a phob peth mewn cyngrair yn erbyn heddwch ac hapusrwydd dyn? Os oes ewyllys ddianwadal yn cyfeirio ein hysgogiadau, ai ewyllys ddieflig yw? Na! cartref cysurus i'w blant y bwriadwyd y ddaear gan ei Chreawdwr; gwinllan, ac nid tanfa o chwyn; ymladdfa, lle y mae rhinwedd, yn ol natur pethau, yn fuddugoliaethus: drygioni, camwedd, celwydd, rhith o bob rhyw, yn egwan a chandryll; athrofa, lle mae dyn i gyfawyddo ei hun yn ngwersi y ddoetheineb benaf, o lyfr yn mha un gweithredoedd ein Perydd ydynt y cymeriadau, cynlluniau pob perffeithrwydd, coron pob cywreinrwydd a chysondeb. Rhaid ein gwneuthur fel plant cyn y delom yn ddoeth. Rhaid i ni fwrw ymaith y camargraffiadau a'r rhagfarnau ag ydynt wedi cramenu a chragenu ar ein natur dyner ac agored. Rhaid i ni ymuniawni fel o wyrgamedd, ffugostyngeiddrwydd a choeg hunan-ddibrisdod, a pharchu ac anrhydeddu y ddynoliaeth o ba un yr ydym yn gyfreithlawn etifeddion.

Llenyddiaeth geintachlyd, gul, ddieffaith, fydd ein llenyddiaeth, hyd nes y delo ei noddwyr yn argyhoeddedig o fawredd a nerth ac ardderchogrwydd cynhenid dynoliaeth; nes y dychwelont i undeb a chydgord â'u natur eu hunain, ac nes yr agorer eu llygaid i ganfod mai da yw y cwbl, a manteisiol i ddyn er dwyn allan a meithrin elfenau ei ddedwyddwch a'i ogoniant.—G.

Basged y Blodau.—Y dyn goreu yw'r amlygiad disglaeriaf o Dduw.

Nid yw'r cymylau sydd yn cuddio'r nefoedd rhagom yn dyfod o'r nefoedd, ond o'r ddaear.

Gofynwyd i'r enwog Robert Hall, beth a feddyliai am bregeth odidog yr hon oedd wedi peri cynhwrf; "ffein iawn," eb efe, "ond nid all dyn ddim bwyta blodau."

Gweithia tra y gelwir hi heddyw, oblegyd ni wyddost faint o rwystrau a gyfarfyddi y foru; y mae *un* heddyw yn well na *dau* foru.

Bydd *di* foddlon mewn gwneuthur daioni, dyweded *eraill* a ddywedont.

Gohebiaethau.

IAWN DDARLLENIAD.

1 Tim. iii., 16.

Mr. Ymofynydd,—Da oedd genyf glywed fod eich misolyn defnyddiol a dibartiol yn debyg o weled y dydd unwaith etto. I mi nis gall lai na bod yn dderbyniol iawn, pan y mae drws yr *Annibynwr* wedi ei gau yn fy erbyn, fel na chaiff rhagor o'm llythyrau ymddangos yno, er y gwahoddiad groesawus a roddwyd i mi i atteb y Parch. Rhys Gwesyn Jones. Gadawodd y golygydd ran helaeth o'm llythyr cyntaf allan, a gwrthododd y gweddill yn hollol—eithr cafodd Mr. J. ysgrifenu a allai yn fy erbyn. Yr ydwyf yn dywedyd, a allai, gan nad oedd ganddo fawr yn rhagor a allasai gymeryd o waith Henderson, ei brif, os nid ei unig awdurdod ar y pwnge—awdurdod lled ysgafn, yn wir, fel y caiff Mr. J. weled cyn gorphen y ddadl hon. Ai oherwydd nad yw yn awdurdod dda, y mae Mr. J. yn cymeryd mor helaeth o hono heb *addef* ei ddyled iddo ond unwaith i gyd trwy ei holl lythyrau? Yr wyf yn dra hyderus y bydd i chwi ymddwyn yn hollol wahanol at Mr. J., os y gwel yn gymwys i ysgrifenu attoch mewn atteb i mi. Wele yn canlyn fy llythyr cyntaf, gan obeithio y gosodwch *chwi* i mewn yr hyn a adawodd *golygydd* yr *Annibynwr* allan, gan ei gau rhwng cromfachau, fel y gwelo'r cyhoedd y cam a gefais.—O. E.

Wele yn flaenaf Ymosodiad Mr. Jones.—*Annibynwr, Ionawr*, 1858.

Sylwadau ar Bregeth a draddodwyd gan y Parch. Owen Evans, *Cefn Coedycymer, yn hen gapel y Presbyteriaid, Penybontar-Ogwy, Hydref 1af*, 1857, *oddiworth* 1 *Tim.* iii. 16.

Mr. Gol.,—Mae genyf dri neu bedwar o gesymau dros wneuthur sylw o'r bregeth uchod.

1. Traddodwyd hi yn y dref lle yr wyf yn llafurio, i berswadio y bobl i gredu yn Nghrist fel y gwir Duw a'r bywyd tragywyddol.

2. Pregethwyd hi mewn ffordd o feiddiad i bwy bynag oedd yn bresenol yn alluog i ymdrin â'i pwnc. Dywedai y pregethwr ei fod dan anfantais i bregethu, gad ei fod wedi meddwl pregethu ar destyn arall, ond ei fod yn cymeryd y cyfleusdra hwnw i hysbysu ei olygiadau ar bwnc y ddadl rhwng yr Undodiaid ag eraill.

3. Ymddengys Mr. Evans yn ysgolhaig a gwr bonheddig, fel y gellir dysgwyl addysg a goleuni wrth ymddyddan âg ef ar y pwnc pwysig yma.

4. Mae Mr. Evans yn athraw i lawer o ddynion ieuainc, ac amryw fyfyrwyr oddiwrtho ef yn cael eu derbyn i Goleg Aberhonddu. Gan fod yr athraw yn debyg o ddylanwadu yn dduwinyddol yn gystal a llenyddol ar y rhai a fyddant dan ei ofal, neu ynte, ni ddylai fod yn athraw pregethwyr, nid oes achos i Mr. Evans synu fod yr Annibynwyr yn cymeryd sylw ar ei olygiadau ef yn fwy na phob Undodwr.

Nid oes angen dywedyd fod y pwnc yn bwysig, oblegid gweirir ar unwaith os nad yw Crist yn Dduw fy mod i, a'r rhan fwyaf o grefyddwyr Cymru, yn euog o eulunaddolfaeth, ac yn camddeall, neu ynte, yn gwyrdroi yr Ysgrythyrau mewn modd dychrynllyd. Tra ar y llaw arall, os yw Iesu Grist yn Dduw, mae Mr. Evans a'i frodyr mewn cryn dywyllwch, ac yn sefyll mewn perygl o gael eu hanghymeradwyo yn yr amser y bydd yn amlygu ei hun fel barnwr pawb. Os gwna Mr. Evans sylw o'm hysgrif, (oblegid gwn y rhoddwch le iddo,) gobeithiaf y dengys mai cael allan y gwirionedd yw ei brif amcan.

Testyn Mr. Evans ydoedd, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd."

Dechreuodd gyda dyweyd mai y farn gyffredin ydyw fod yr ail berson yn y Duwdod wedi dyfod i'r byd i wisgo cnawd; ond fod y golygiad hwnw yn ymddibynu ar un gair, sef *Duw* a ymddangosodd. Yna aeth yn mlaen i ddangos nad oedd y gair *Duw* yn y Groeg, mai gair a ddylasai gael ei gyfieithu *yr hwn*, neu *yr hyn*, ddylai fod yn y Testament Groeg, fel y gwelir wrth gydmaru yr hen gyfieithiadau Syriaeg a Ladin, pa rai ydynt bron gymaint o awdurdod a'r hen ysgrifau Groeg eu hunain. Ond nid oedd ef yn gweled angen am feirniadaeth, er iddo dreulio cryn amser i feirniadu; oblegid hawdd ganddo ef addef i Dduw ymddangos yn Nghrist, ond nid yn yr ystyr y mae y Trindodiaid.

Mae Duw yn ymddangos yn y cnawd bob dydd—yn y ddacar, yn y sêr, yr awyr, y dwfr, y cyfansoddiad dynol, &c. Heb roddi engreifftiau Mr. Evans ar lawr, digon ydyw dyweyd ei fod wedi dyfynu yn helaeth o Paley's *Nat. Theol.* Gwir feddwl y testyn, yn ol Mr. Evans, yw dysgeidiaeth Duw yn nghnawd Crist. Duw gyda'r Iesu yn yr Iesu. Mae y gwirionedd a gadarnheir yn fwy pwysig na'r person a gyflawnai y wyrth. Dangos Duw fel Tad oedd prif waith

yr Iesu, a'r teimlad ei fod yn Dad a'i daliodd yn ei holl dywydd. Dyma hefyd ddaliodd Paul. Trwy Iesu y daeth yr holl wybodaeth sydd genym am y Tad. Dyma grynodeb o'r sylwadau ar y testyn fel y cymerwyd hwynt i lawr ar y pryd.

Mae yn anhawdd gwybod pa le i ddechreu, oblegid yr wyf yn annghytuno a phob brawddeg. Gyda golwg ar yr adnod yn y Groeg, gwir fod Griesbach yn ymresymu yn gadarn iawn yn erbyn *Theos;* ond nis gallaf weled yr enillai Mr. Evans ddim wrth gael y rhagenw o'i flaen, oblegyd rhaid iddo addef fod rhagenw yn cyfeirio bob amser at enw fyddo yn ddigon hysbys i'r darllenwyr.

Diau y gwyr Mr. Evans nad oes ond ychydig iawn o awdurdod dros *o* yn lle *Theos*, a diau y gwyr hefyd fod y rhan fwyaf o ysgrifau yn erbyn *os*, ac o'r rhai a ymddangosant yn bleidiol i *os*, mae amryw yn amheus. Mae yr ysgrifen Alexandraidd yn y *British Museum* wedi treulio, fel nas gellir dyweyd pa un ai *os* neu ⊖ g oedd ynddynt ar y cyntaf. Mae amheuaeth fawr hefyd am Codex Ephrem yn llyfrgell freiniol Paris. Felly nid oes yn aros o blaid *os* ond ychydig ysgrifau diweddar, tra mae dros 150 o'r rhai henaf yn darllen *Theos*, sef Oç. Er taflu ychydig oleuni ar y dernyn uchod i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â beirniadaeth, dywedwn air o eglurhad. Yr oedd yn arferiad gan hen ysgrifenwyr i dalfyru geiriau. Ysgrifenant *Os* (yr hwn), a *Theos* (Duw), yn debyg i'w gilydd, ond fod llinell yn nghanol *o* y gair olaf, ac un arall uwch ei phen, wele y ddau air, *Os*, ⊖ç. Y pwnc yw, a oedd y llinell yn nghanol yr *o* pan ddaeth odditan law Paul ai nad oedd. Addefa Mr. Evans y gallasai y fod, ac yr wyf fi yn credu ei fod yn iawn wrth addef. Ond y mae efe yn gwrthod y casgliad, a ymddengys i mi yn naturiol, ac angenrheidiol oddiwrth yr adnod, sef fod Crist yn Dduw yn gystal a dyn. Nis gallaf weled pa fodd y dichon Mr. Evans ddal fod Duw yn preswylio yn y greadigaeth ac osgoi casgliad Spinoge fod y greadigaeth a Duw yn un. Addefaf, ïe, credaf fod amlygiadau o allu a doethineb Duw yn yr oll o'i weithredoedd; ond nid yw yr oll a welwn ni ond rhanau ei ffyrdd ef. Nid yw yr oll a ddywed y greadigaeth am Dduw yn egluro ein testyn. Mae llawer o briodoleddau yn perthyn i Dduw nas gallasem byth wybod am danynt wrth sylwi ar y greadigaeth; a dywedwn yn mhellach, fod eithafion yn perthyn i'r priodoleddau a amlygir nas gallasem eu cael allan wrth ddarllen llyfr y cread. Er engraifft, y mae pob peth a greodd Duw yn profi ei fod yn alluog a doeth; ond nid oes yr un, ïe, nid yw yr oll o'i weithredoedd yn profi ei fod yn Hollalluog na Holldoeth. Nid yw fod rhyw un yn alluog i wneyd llawer, yn profi ei fod yn alluog i wneyd pob peth. Felly nid yw Duw yn ei gyflawnder yn preswylio yn y greadigaeth. Rhaid i ni edrych i le arall i gael golwg gyflawn ar Dduw yn yr oll ag ydyw, yn neilldiol ei deimlad cariadlawn at deulu dyn. Gan fod Mr. Evans yn dyweyd mai trwy athrawiaethu y gwnaeth Crist ddangos Duw fel Tad, gofynaf, pa beth a ddywedodd Crist am Dduw mwy nag a ddywedodd Paul? O ran cyflawnder eu hathrawiaethau, mae Paul yn gydradd, os nad yn rhagori ar Grist; ac os mai marw, er cadarnhau ei athrawiaeth, hynododd Grist, gwnaeth Paul yr un peth; felly yr oedd Duw yn preswylio yn Paul ac amryw eraill yr un fath a Christ. Ond y mae holl ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn cyduno i briodoli uwchafiaeth i Grist. Geilw Paul ef yn Arglwydd, a noda ef allan fel y Ffynonell o ba un y derbyniai bob nerth, doethineb, a chysur; a'r un modd y gwna Ioan a Phedr. Rhaid, ynte fod rhywbeth yn Nghrist na addefir gan Mr. Evans. Camsyniad mawr yw dywedyd mai Crist yn unig amlygodd Dduw fel Tad; oblegid yr oedd yn cael ei gydnabod dan yr enw hwnw dan yr Hen Destament; ond gwir yw mai trwy Grist yr amlygwyd fod yn bosibl i Dduw ddyfod yn Dad i rai oeddent wedi troseddu ei ddeddfau. Nid oes dim yn amlycach na bod y Bibl yn gosod Crist allan fel gwrthddrych addoliad. "Addoled holl angylion Duw ef," Heb. i. 6. "Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad." Os nad yw Crist yn Dduw, byddai ei addoli yn groes i ewyllys ddatguddiedig Duw, yr hwn a ddywed na rydd ei ogoniant i arall. Nid oedd dim allasai Duw roddi i fôd creuedig yn ddigonol i'w wneyd yn wrthddrych addoliad, gan nas gallasai ei wneyd yn anfeidrol. Ond y mae Crist yn wrthddrych addoliad, ac am hyny yn meddu anfeidroldeb yn naturiol, ac nid yn ddeilliedig na rhoddedig. Gan mai Duw yw unig wrthddrych addoliad, a bod Crist yn wrthddrych addoliad, yna rhaid fod Crist yn Dduw. Ni chynygiodd Mr. Evans ddangos pa fodd y cyd-saif ei olygiad ef, "Athrawiaeth Duw yn nghnawd Crist," a'r rhanau olaf o'r adnod. Pa beth a olyga wrth gyflawnhau yr athrawiaeth yn yr ysbryd? Pwy ysbryd oedd yn cyflawnhau? Nid ysbryd dyn; canys daw hyny eilwaith dan gredu iddo yn y byd. Nid yw Mr. E. yn addef bodolaeth yr Ysbryd Glan, yna rhaid mai Duw oedd yn cyflawnhau ei athrawiaeth ei hun. A fedr Mr. Evans wneyd rhyw synwyr o'r frawddeg ar ei dir ei hun? yr wyf fi yn methu. Beth welwyd gan angylion, a pheth gymerwyd i fyny i ogoniant? Mae yr athrawiaeth yn aros hyd eto. Beth ynte aeth i ogoniant? Ymddengys i mi fod

yma anhawsderau dirfawr. Ond ar y dybiaeth fod Duw wedi ymddangos yn mherson Iesu, fod Crist yn Dduw yn y cnawd, mae y cyfan yn naturiol. Rhoddaf yma fy esboniad i ar yr adnod, a hwyrach y rhydd Mr. Evans yr eiddo yntau ryw dro eto. Rhaid i bawb addef fod y ffaith yma yn ddirgelwch mawr, Duw yn ymddangos yn y cnawd; er hyny, mae yn eithaf gwir. Er nad oedd dynion yn gweled y priodoldeb o hyny, meddylient mai twyllwr oedd Iesu. Cyfrifent ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio, Esay liii. 4. Ond cyfiawnhawyd ef gan Dduw (yr Ysbryd Glan). Yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw gwelid yn amlwg mai Mab Duw ydoedd, a'i fod yn hoff ganddo, Rhuf. i. 4. Ie, aml iawn y daeth llef oddiwrth y mawr ragorol ogoniant yn tystio mai anwyl Fab Duw oedd Iesu, a bod ei ddarostyngiad yn gymeradwy ganddo. "A welwyd gan angylion." Yn narostyngiad a marwolaeth yr Iesu, gwelodd yr angylion fwy o Dduw nag welsent o'r blaen. Gwyddent ei fod yn alluog, doeth, a da; ond yn Nghrist gwelsant ei fod yn Dduw y cariad, ie, mai cariad ydoedd oll, a'i fod yn medru maddeu; a diau iddynt gael golwg eglurach ar gyfiawnder a santeiddrwydd Duw nag a feddent o'r blaen. "A bregethwyd yn mhlith y cenedloedd." Beth, yr athrawiaeth a ddysgasai Crist? nage, ond Crist ei hun, a hwnw wedi ei groeshoelio, 1 Cor. i. 23. Gwir fod yr apostolion yn dysgu athrawiaeth Crist, ond i'r credinwyr, ac nid i'r cenedloedd a gredent ynddo yn y byd. Y person eto, ac nid yr athrawiaeth yn benaf, Act. viii. 37; a xvi. 31; Pedr ii. 6, 7. Amlwg yw fod y person yn wrthddrych crediniaeth yn holl weinidogaeth yr apostolion. "A gymerwyd i fyny i ogoniant." Trwy drugaredd nid yw yr athrawiaeth wedi gadael y byd. Mae yr holl bethau a ddysgodd Crist yn ysgrifenedig yn y pedair Efengyl. Beth ynte gymerwyd i ogoniant? Nid yr athrawiaeth, ond y person; canys gwyddom fod Crist wedi ei gymeryd i fyny i'r nef, (Luc xxiv. 51; Eph. iv. 8—10; Act. v. 31; Phil. ii. 10.) Ymddengys i mi mai y casgliad teg yma yw mai person, ac nid athrawiaeth, yw y Duw a ymddangosodd yn y cnawd. Os bydd y darllenydd yn teimlo ychydig anhawsdra yn y dernyn, cofied fy mod wedi dywedyd mor eglur ag y goddefai y pwnc.

RHYS GWESYN JONES.

ATEB i sylwadau y Parch. RHYS GWESYN JONES *ar fy Mhregeth yn Pen-y-bont-ar-Ogwy, Hydref 1af,* 1857: RHAN 1.—*O'r Annibynwr,' Mawrth,* 1858.

MR. GOL.—Cyn dechreu, goddefwch i mi drosglwyddo yn gyhoeddus i chwi, syr, fy niolchgarwch gwreiocaf, am eich caniatâd i mi ymddangos mewn amddiffyniad i'm golygiadau. Yr wyf yn cytuno yn hollol â chwi, "Nas gall dadleudeg lai na bod yn fanteisiol i'r gwirionedd." Diolch i chwi, unwaith eto, am eich caredigrwydd a'ch anmhleidgarwch.

Y mae Mr. Jones yn rhoddi pedwar o resymau dros wneuthur sylw o'm pregeth. Nid angen, i'm tyb i, wrth ragor nag un; sef, ei fod yn ystyried fy mod yn cyfeiliorni; ac fel amddiffynydd y gwirionedd, ei fod dan rwymau i'm gwrthwynebu er mwyn y *gwirionedd*, ac hefyd er fy mwyn *inau*.

Yn ei ail reswm dywed Mr. Jones, "Pregethwyd hi mewn ffordd o feiddiad i bwy bynag oedd yn bresenol yn alluog i ymdrin â'r pwnc." Nid wyf yn *cofio* am un hêr o'm tu i, ond dywedais i mi glywed fod hêr wedi cael ei rhoddi gan rai o'r gwrandawyr, wrth fyned o'r cyfarfod y boreu, i mi bregethu, os baeddwn, oddiar 1 Tim. iii. 16. Hyn oedd yr achos i mi gymeryd y testyn hwn mewn llaw.

Gobeithiaf y try ei ddysgwyliad yn ei drydydd rheswm allan yn wir; sef "Y gellir dysgwyl addysg a goleuni wrth ymddyddan ag ef ar pwnc."

Mewn perthynas i'w bedwerydd rheswm, gallaf ddywedyd wrtho fod llawer o siarad yn mhlith yr Annibynwyr eu hunain, yn y gymydogaeth hon, o barthed i'w *amcan* yn ei ysgrifenu. Boed hyny mal y bo, gorfodir fi i wneud sylwadau ar y cyfryw reswm ag y dymunaswn yn fawr na buasai achos wrthynt; yn enwedig gan fod Mr. Jones wedi cael ei ddwyn i fyny yn rheolaidd mewn coleg i ymofyn am y gwir. Ymddengys i mi fod yr hyn a ddywed yn sarhad, nid bychan, naili ai ar y dull y cafodd ei ddwyn i fyny, neu arno ef fel myfyriwr esgeulus neu annghofus. Dywed, "Gan fod yr athraw yn debyg o ddylanwadu yn dduwinyddol yn gystal a llenyddol ar y rhai a fyddant dan ei ofal, neu ynte, ni ddylai fod yn athraw pregethwyr, nid oes achos i Mr. Evans;" &c. Mae Mr. J., o bosibl, yn meddwl nas gallaf ddiance rhag un o gyrn ei reswm-dwybig ef (*dilemma*). Os wyf yn dylanwadu yn dduwinyddol ar y myfyrwyr dan fy ngofal, ni ddylwn, bid sicr, gael parotoi myfyrwyr i Goleg Aberhonddu; ac os nad wyf yn dylanwadu felly, *ni ddylwn fod yn athraw pregethwyr.* Mewn amddiffyniad yr wyf yn ateb, *mai nid ysgol i ddwyn pregethwyr i fyny yw fy ysgol i*, er fy mod wedi parotoi dynion ieuainc mewn gwybodaethau angenrheidiol i'w haddasu i gael derbyniad i Golegau Aberhonddu a Chaerfyrddin, YNO *i gael eu dwyn i fyny yn* BREGETHWYR. Gallaf ddywedyd yn mhellach, na chynygiais i erioed ddylanwadu yn dduwinyddol ar un o'r rhai fu dan fy ngofal, Gall Mr. Jones, os myn, gael

boddlonrwydd ar hyn oddiwrth y Parch. Rees Morgan, Llechryd, Ceredigion; Evan Harries, yn awr yn yr Amerig; a'r Meistriaid John Jones, William Lewis, a David Davies, myfyrwyr yn bresenol yn Ngholeg Aberhonddu. Ond och! wele fi yn awr ar gorn arall ei *ddilemma*, sef, "Ni ddylai fod yn athraw pregethwyr." Ond, Mr. Jones, y mae y corn hwn eto yn eithaf diniwed i mi, gan nad pa un a fydd ef mor ddiniwed i chwi ai peidio; oblegid fel y dywedais eisioes, *nid* WYF *yn athraw* PREGETHWYR. Dyna fy ateb cyntaf. Wele yr ail; sef, pe *buaswn* yn athraw pregethwyr, buasai fy nhrefn i ddwyn pobl ieuainc i fyny i ymofyn am y gwirionedd yn hollol groes i'r eiddo Mr. J. Yn y fath amgylchiad, buaswn yn ei theimlo yn ddyledswydd arbenig arnaf, *er mwyn y gwirionedd*, i osod y rhesymau *dros* ac yn *erbyn* pwnc yr ymchwiliad, gyda'r fath degwch o flaen y myfyrwyr, fel ag i gadw o'r golwg, mor belled ag y gallwn, fy syniadau personol fy hun. Ac y mae y rheswm yn eglur; sef, fel na fyddai i *ddylanwad personol*, mewn un modd, rwystro y myfyrwyr yn eu hymgais am y *gwirionedd*. Buaswn yn teimlo rhwymau arnaf i ymddwyn felly, nes, o leiaf, y byddai genyf hawl deg i *anffaeledigrwydd*, i'r hwn nid oes genyf yr hawl leiaf hyd yn hyn. Eto, goddefed Mr. J. i mi ddywedyd wrtho, fy mod wedi clywed yr wythnos hon, mai yn ol y drefn hon y mae y Parch. Lewis Edwards, o'r Bala, yn dwyn pregethwyr i fyny; a hon yw y drefn a gymeradwyir mewn amryw golegau eraill hefyd; ond yn ol tyb Mr. Jones, ni ddylent hwy na minau fod yn athrawon pregethwyr. Felly barned y cyhoedd bellach rhyngom ar hyn yma. Gair ar yr amcan a allasai fod ganddo mewn golwg. *Os* oedd yn amcanu dylanwadu ar y corff o Annibynwyr i atal neb i ddyfod dan fy ngofal, i'w parotoi i Goleg Aberhonddu; er y byddai hyn o'i du ef yn ymddangos yn lled anfoneddigaidd, eto byddwn yn eithaf boddlon i hyny. Boed felly, os mŷn ef, ïe, dywedaf yn mellach fy mod yn eithaf boddlon trosglwyddo pob myfyriwr o'r fath, a ddichon ddyfod dan fy ngofal mewn amser dyfodol, i athrofa Mr. Jones, ond iddo eu dysgu ar yr un amod ag y dysgais i y rhai fu dan fy ngofal i; a chaiff wybod, mi wn, beth oedd yr amod, ond iddo ofyn i'r boneddigion a enwais uchod. Os gwna ef hyny, gwnaiff ysgafnhau *llawer* ar fy maich, heb leihau nemawr o'm helw.

Addefaf yn rhwydd gydag ef fod y pwnc yn bwysig; ac os mŷn ef, caiff ei reswm dros hyny aros hefyd; sef, medd ef, "Oblegyd gwelir ar unwaith os nad yw Crist yn Dduw fy mod i, a'r rhan amlaf o grefyddwyr Cymru, yn euog o eulunaddoliaeth, &c. Tra ar y llaw arall, os yw Iesu Grist yn Dduw, y mae Mr. Evans a'i frodyr mewn cryn dywyllwch, ac yn sefyll mewn perygl o gael eu annghymeradwyo yn yr amser y bydd yn amlygu ei hun fel barnwr pawb." Caiff hyn sefyll o'm rhan i, er y buasai yn well peidio gwneuthur sylw o'r fath cyn dechreu y ddadl, rhag peryglu y gwirionedd trwy hyny. Buasai yn well ei osod fel casgliad ar ol y ddadl. Y mae yn rhy debyg yn bresenol i dynu casgliad cyn pregethu, neu osod y *car* o flaen y ceffyl. 'Does fater am hyn, awn at y ddadl, gan obeithio y dengys ef a minau i'r cyhoedd, yn ol ei eiriau ef, "Mai cael allan y gwirionedd yw ein prif amcan."

Dywed Mr. Jones, "Yna aeth yn mlaen i ddangos nad oedd y gair *Duw* yn y Groeg, mai gair a ddylasai gael ei gyfieithu *yr hwn*, neu *yr hyn*, ddylai fod yn y Testament Groeg." Ni ddywedais ddim o'r fath beth; ond dywedais yn bendant mai y gair *'ò, yr hyn*, oedd yn ymddangos i mi y darlleniad mwyaf cywir; a rhoddais y cyfieithiad canlynol, fel yr un cywir o'r un Syriaeg yn ol fy marn i, "Mawr yw dirgelwch cyfiawnder *a* ddatguddiwyd yn y cnawd." Gan fod Mr. J. yn ddystaw mewn perthynas i'm beirniadaeth ar y Syriaeg, cymeraf yn ganiataol ei fod yn cytuno â mi, neu yn analluog i'm gwrthwynebu yn hyn o beth; a hyny yn benaf, o herwydd i Mr. J. E. Jones, gweinidog yr Undodiaid yn Penybont, roddi iddo y rhifyn o'r *Ymofynydd*, lle yr oeddwn wedi gosod fy meddwl yn lled helaeth ar y pwnc o flaen y cyhoedd. Cymeraf fy nghenad yn bresenol i fyned yn fwy manol i'r mater nag y dyoddefai priodoldeb i mi wneuthur mewn pregeth; sef, i brofi yn fwy helaeth mai y darlleniad *'ò, yr hyn*, sydd yn ymddangos i mi y mwyaf cywir.

I. *'ò, yr hyn*, yw darlleniad llaw-ysgrif Caergrawnt, neu *Codex Bezæ*, a nodir gan Griesbach â'r llythyren D. Ac fel na byddo i Mr. Jones fradychu ei hun mewn perthynas i'r llaw-ysgrif hon, fel y mae wedi gwneuthur eisioes â llaw-ysgrifau eraill, wele o'i flaen eiriau Griesbach, "*D habet ö . . . . . in codice autem D primitus O lectum idque a correctore multo juniore in* OZ *mutatum esse, copiose in Symbolarum criticarum tomo*, 1 *pag.* viii.—liv, *et tomo* 2 *pag*, 56—76, DEMONSTRAVIMUS." Felly, ynte, y mae Griesbach wedi profi yn eglur, meddaf, mai y *darlleniad cyntaf* oedd ö *yr hyn*, a gyfnewidiwyd i OZ *Duw* gan law ddiweddarach o lawer. Ond beth am henafiaeth yr ysgrif hon? Y mae Wetstein a J. D. Michaelis o'r farn ei fod yn llawer boreuach na'r chweched ganrif; ac y mae Marsh yn ei hystyried yn henach na'r *Codex Vaticanus*. Gwel yn mhellach, Wetsein's *prolegomena to his fol. ed. of N. T., p.* 28; Kipling's *preface to his ed., of this M.S.*; a Marsh's

Michaelis Introd. vol. i. ii. Ni a welwn ynte fod yr ysgrif hon yn un o'r rhai henaf, os nid yr henaf allan, ac mewn awdurdod y mae yn ogyfuwch, os nid yn uwch, nag un arall ar glawr yn bresenol.

II. Am y cyfieithiadau boreuaf, dywed Griesbach mai y Polyg. Arabaidd a'r ysgrif Slafonaidd yn unig sydd yn darllen Θεὸς *Duw;* fod yr holl rai ereill i gyd yn darllen, nid Θεὸς *Duw*, ond naill ai *'os yr hwn*, neu *'o yr hyn;* fod y Coptic, Sahidic, a'r Syriac peshito, yn darllen *ös yr hwn* yn y *margin;* fod y Vulgate a'r Italaidd yn arfer *'ò yr hyn;* y ddau gyfieithiad Syriaidd, Arabic Erp, yr Ethiopic, a'r Armenian, yn defnyddio rhagenw a ellir ei gyfieithu naill ai wrth qui, *yr hwn*, neu quod, *yr hyn.* Yn yr *Ymofynydd* ymdrechais ddangos trwy amryw o resymau, mai quod, *yr hyn*, yw darlleniad y Syriac, ac y mae genyf lawer yn rhagor i'w ddywedyd ar hyny eto os bydd angen. A chan fod yr Arabic Erp, yr Ethiopic, a'r Armenian, yn cael eu gosod yn yr un cyflwr gan Griesbach, yr wyf yn casglu mai quod, *yr hyn*, a ddarllenir yno hefyd. Yn awr at henafiaeth y cyfieithiadau uchod. Yn ol barn y dysgedigion goreu gwnaed y cyfieithiad Syriaidd, a elwir y *peshito*, os nid cyn marwolaeth St. Ioan, eto yn glau ar ol hyny; a chan mai y Syriac oedd mam-iaith Crist a'r apostolion, nid oes un, yn ol barn y beirniaid goreu, a rydd fwy o gynhorthwy i ddeall y Testament Newydd. Y mae henafiaeth hon yn ein gosod wrth draed yr apostolion, ac nid oes un llaw-ysgrif a feddwn ni yn agos mor foreu a'r cyfieithiad hwn. Cafodd ei gyfieithu, yn eithaf tebyg, o law-ysgrif o dan nawdd yr apostolion, ac felly y puraf allan.

O'r hen gyfieithiadau *Lladin*, y mae llawer o honynt yn llawn o ddullwedd Hebreaidd, a Syriaidd o lefaru, *(full of Hebraisms and Syriaisms,)* wedi eu cyfieithu, yn lled debyg, gan Iuddewon genedigol, mor foreu a'r ganrif gyntaf. Gwnaed y Coptic a'r Aifftaidd cyn canol y drydydd ganrif; yr Armenaidd, gan Miefrob, cyn y flwyddyn 410, a dywed La Croze nad yw yr amseriad hwn ddim yn myned dros ben y gwir. Y cyfieithiad Arabaidd, gan Erpenius yw y diweddaraf o honynt oll.

III. Tadau yr eglwys, fel eu gelwir. Dywed Griesbach fod yr holl dadau Lladinaidd o bob oes yn darllen quod, *yr hyn*, er eu bod yn ei ddeall am Grist. Mae yn wir fod Theodore Mopsvest, yn darllen qui, *yr hwn.* Mewn perthynas i'r tadau Groeg, gellir sylwi, medd Griesbach, nad oedd y testyn hwn yn cael ei ddifynu ganddynt ond yn anfynych iawn yn yr oesau boreuaf; ddim yn erbyn yr Ariaid yn nechreu y ddadl â hwynt; ac nid yw Ciryl, o Alexandria, yn dwyn yr adnod hon yn erbyn yr Ymerawdwr Julian, yr hwn a haerai nad oedd Iesu byth yn cael ei alw yn Dduw gan Paul. Felly y mae y dystiolaeth ddystaw hon, os cymhwys yr ymadrodd, yn profi yn eglur na wyddent hwy am y gair *Duw* yn yr adnod hon, onidê, cyfeirient ati yn y dadleuon a grybwyllwyd, megys y *gwneir yn bresenol*, pryd bynag y byddo dadl o'r fath yn cymeryd lle. Felly, wele o flaen y darllenydd y fath nifer o dystion, a'r rhai hyny y rhai henaf allan, nad Θεὸς, *Duw*, yw y darlleniad cywir, ond, i'm tyb i, mai *'o, yr hyn*, a ddylai fod. Er nad oes ond un llawysgrif drosto, y mae grym henafiaeth o'i du.

Er mwyn bod yn drefnus gyda'r gwaith, y mae genyf rai sylwadau i wneuthur ar haeriadau Mr. Jones o barthed i'r llaw-ysgrifau, ac yna âf at ei dalfyriad ef o'm pregeth. Dywed, "Diau y gwyr Mr. Evans nad oes ond ychydig iawn y awdurdod dros 'ö yn lle Θεὸς." Ar hyn y mae digon wedi ei ddywedyd genyf i ddangos i'r cyhoedd y gwyddwn i yn well na hyny. "A diau y gwyr hefyd," medd ef, "fod yr rhan fwyaf o ysgrifau yn erbyn *os*." Gwn hyn o'r goreu, ac nad yw y nifer ddim yn fawr dros *'ós*, a buasai yn dda genyf pe buasai Mr. J. yn cadw o hyd cystal a hyn at y gwir. "Ac o'r rhai a ymddangosant yn bleidiol y mae *amryw* yn amheus. Mae yr ysgrifen Alexandriaidd yn y *British Museum* wedi treulio fel nas gellir dyweyd pa un ai *os* neu Ος oedd ynddynt ar y cyntaf. Mae amheuaeth fawr hefyd am Codex Ephrem yn llyfrgell freiniol Paris." O'r *amryw* sydd yn amheus, nid oes ond *dwy* yn cael eu cau allan wedi y cyfan. Ond beth a ddywed Griesbach am y ddwy hyn, un wedi "treulio fel nas *gellir* dywedyd, &c., a'r llall yn amheus." Dealled y darllenydd fod Griesbach yn arfer y llythyren A am yr ysgrif Alexandraidd, a C am ysgrif Ephrem. Yn awr caiff Griesbach lefaru, "*Caeterum codices* A *et* C *a prima manu non* QZ, *ut nonnulis visum fuerat, sed* QZ *habuisse.*" Felly, y mae Griesbach yn *gallu dyweyd, a* hyny yn benderfynol, mai y darlleniad gan y llaw *gyntaf* oedd OZ, *yr hwn*, ac nid QZ, *Duw*, fel y tybiai rhai. A oedd y frawddeg uehod o eiddo Griesbach yn hysbys i Mr. Jones pan wnaeth ei haeriad disail? Ond ychwanega Mr. Jones, gan ddywedyd, "Felly nid oes yn aros dros *os* ond ychydig ysgrifau diweddar, tra y mae dros 150 o'r rhai henaf yn darllen *Theos*, sef Ος." Ni wn i ddim beth i'w ddywedyd am y fath haeriad a hwn! Y meddwl mwyaf tyner a allaf fi ffurfio yn ei gylch yw, iddo darddu o fyrbwylldra mawr. Nid oes yn aros dros *os* ond ychydig o ysgrifau *diweddar!* Y mae y tystion *henaf* o bob gradd yn amddiffyn y darlleniad hwn, medd Griesbach, wele ei eiriau, "*Tuentur silicet hanc lectionem*

antiquissimi *omnium classium testes.*" Ac yn sicr y mae yr ysgrifau henaf drosto ond un, sef y Codex Bezæ, yr hwn sydd yn darllen '*ó, yr hyn.* Y mae Griesbach yn dywedyd fod yr ysgrifau A C. F. G. gr. 17, 73, yn darllen '*ós, yr hwn*, a D. yn darllen '*ó, yr hyn.* Y mae bwlch yn B. E. H. yma, a rhai eraill, medd ef. Gwnaed A, yr Alexandraidd, o'r IV. i'r VI. ganrif; C, yr Ephrem, yn y fl. 542; F, y Boreelian, nis gallais eto gael allan ei hoed; G, yr Harleian, XI. neu XII. ganrif; 17, yn y XV. ganrif; 73, Wakü, XI. ganrif. Gwel y darllenydd nad wyf ac nas gwnaf ganiatau i Mr. Jones, heb brofion cedyrn, droi yr ysgrifau Alexandraidd na'r Ephrem allan o'r ddadl: ac felly, y *mae* yn aros, fel y dywedodd Griesbach, y tystion henaf o'r ysgrifau dros OZ, *yr hwn* Ond yn mlaen at y rhan arall o'r haeriad, "Tra y mae," medd Mr. Jones, "150 o'r ysgrifau *henaf* dros QZ, *Duw.*" Os oedd y rhan gyntaf o'r haeriad yn fyrbwyll, y mae y rhan hon yn warthus. Y mae Griesbach yn dywedyd fod y darlleniad Qeos, *Duw*, yn gorphwys *ar rifedi* ysgrifau *diweddarach* yn perthyn i'r cyfrif Constantinopolaidd, ac ar *ffydd amheus* tadau diweddarach Groeg, ac nas gellir ei gael yn un gofadail henafiaeth *cyn diwedd y bedwaredd ganrif*, "*Nec in ullo antiquitatis monumento*, seculo quarto exeunte anteriore." Yn awr, Mr. Jones a ellwch chwi enwi un llaw-ysgrif mewn llythyrenau ysgwar (*uncial letters*) yn cynwys Qeos, *Duw*, yn foreuach na'r 8fed neu y 9fed ganrif? Nid oes yr un o'r fath yn nghofres Griesbach, yr hon a gydmerais yn fanol. Os na ellwch enwi un o'r fath, eich dyledswydd, fel dyn teg a gonest, fel un a'ch *amcan i gael allan y gwirionedd*, ac fel gweinidog yr hwn ni chaed twyll yn ei enau, yw addef eich bai mor gyhoeddus ag y gwnaethoch ef. O'r hyn lleiaf, hyd nes y byddo i chwi addef eich camsynied, neu ddangos fod Griesbach yn cyfeiliorni, nis gallaf ganfod fawr o ddyben dadleu yn mhellach ar y pwnc.

OWEN EVANS.

Coedycymer, Ion, 26, 1858.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y MAE prinder newyddion o bwys, a phrinder lle yn ein Cyhoeddiad yn digwydd cyd-daro ar y pryd hwn, fel nad oes gymaint o eisiau i ni ymesgusodi o herwydd y diffyg a welir yn y rhifyn hwn o hanesion Cartrefol a Thramor.

Pa fodd bynag, nyni a geisiwn, yn ein rhifynau dyfodol, roddi golwg fer ar helyntion gwlad ac eglwys; mor belled o leiaf ag i gofnodi prif ddigwyddiadau y mis blaenorol, y rhai a ymddangosont i ni eu bod yn dwyn perthynas â Rhyddid gwladol a chrefyddol—ond crefyddol yn benaf. Nid yw yr *Ymofynydd* yn proffesu, ac nis gall gyflawni gwaith Newyddiadur; ond gobeithiwn, trwy help ein gohebwyr, y galluogir ni, o bryd i'w gilydd, i alw sylw priodol at gyfnewidiadau a chynygiadau o bwys gyda golwg ar ysgafnhau beichiau, lledaenu gwybodaeth, gwella moesau, a llesoli y wlad yn gyffredinol.

Y SENEDD YMHERODROL.

Fel mae amser agoriad y Senedd yn neshau, y mae cynhwrf y gwahanol bleidiau, fel arfer, wedi dystewi yn rhyfedd, Tra y bo'r blaenoriaid yn arfogi ac yn ymbarotoi i'r ymdrech, gadewir y wlad dros ennyd fach mewn llonyddwch a disgwyliad, neu yn hytrach heb wybod pa bèth i'w ddisgwyl gan mor ansicr ac ansefydlog yr ymddengys fod agwedd presenol materion y llywodraeth. Pwy dybiasai blwyddyn i 'nawr y buasai Arg. Palmerston mor fuan i syrthio i lawr o uchelder ei rwysg? Mewn awr wan, er mwyn boddio Emprwr Ffrainc, yr hwn ar y pryd a achwynai, nid heb achos, fod ei fywyd mewn perygl, ac yn ymddiried gormod yn ei allu ei hun, anturiodd ddwyn cyfraith i mewn a fyddai i gyfyngu ar y rhyddid a'r ymgeledd a roddir i ddieithriaid yn ein gwlad. Teimlwyd fod anrhydedd Prydain wrth hyny yn cael ei ddiraddio, a gorfu ar Arg. Palmerston roddi i fyny ei swydd. Oddiar hyny hyd yn awr ystyrir fod plaid Arg. Derby yn cael cadw eu swydd trwy oddefiad, ac o herwydd yr angytundeb sydd rhwng eu gwrthwynebwyr yn Nhy y Cyffredin. Ni wyddys pa sut y bydd am hyn yn yr eisteddfod nesaf, yr hon sydd yn awr wrth y drws. Pa fodd bynag, rhaid cofio ddarfod i Arg. Derby ganiatau un o bum pwnc y *charter*, (set na bydd yn ofynol bod aelod o'r Senedd i fod yn feddiannol ar hyn a hyn o gyfoeth,) a rhyddfreiniodd yr Iuddewon hefyd, er yn groes i'w deimladau. Plaid Arg. Derby sydd yn meddu y dylanwad mwyaf yn Nhy yr Arglwyddi. A phwy a wyr na bydd i'r blaid hon ganiatau diwygiadau eraill ac

helaethach etto, yn hytrach na gorfod ymadael â'u sefyllfaoedd cysurus? Ychydig amser a ddengys.

Y REFORM BILL NEWYDD.

Bydd tair, os nid pedair ysgrif er diwygio y gynrychiolaeth, yn debyg o gael eu cynyg i Dŷ y Cyffredin. Am ysgrif Arglwydd Palmerston ni wyddys rhagor na'i fod ef yn dyweud fod ganddo un yn barod er ys mwy na blwyddyn. Y mae eiddo Arg. J. Russell wedi bod eisoes, mewn rhan, o flaen y cyhoedd. Ond dichon ei fod erbyn hyn wedi gwneud peth cyfnewid arni. Ac am ysgrif Mr. Bright—os gellir barnu am dani oddiwrth ei areithiau ar y pwnc, nis gallwn fod yn mhell o'n lle i ddywedyd, yn ngwyneb y cyfnewidiadau helaeth a gynygia efe, nad oes braidd posiblrwydd iddi gael ei chymeradwyo hyd yn oed yn Nhŷ y Cyffredin. Y mae Arg. Derby wedi bod yn bur ochelgar hyd yn hyn i gadw ei feddwl iddo ei hun ar y pwnc.

YR INDIA DDWYREINIOL.

Mae y cyhoeddiad trwy osteg (*proclamation*) erbyn hyn wedi myned allan i bob cwr o'r India, ac y mae'r brodorion wedi cael llawn hysbysrwydd, i fod rheolaeth yr *East India Company*, bellach wedi myned heibio; ac mai'r Frenhines Victoria sydd yn awr yn teyrnasu arnynt. Yn ol yr hanesion sydd wedi oin cyrhaedd ymddengys fod y cyhoeddiad wedi cael effaith da dros ben ar bobl y wlad, oherwydd ei fod yn addaw llawn faddeuant i bawb a ddychwelant i fyw yn llonydd ac i ufuddhau i gyfreithiau'r tir.

Y CYFANDIR.

Mae argoelion, nid anamlwg, y bydd gwrthryfel i dori allan yn yr Ital yn nghwrs y flwyddyn nesaf, yn erbyn yr Awstriaid. Hyn, ynghyd a'r sisial sydd wedi bod am ryw fath o anghytundeb yn bresenol rhwng Ffrainc ac Awstria, sydd yn peri cryn lawer o anesmwythdra trwy holl wledydd Ewrop. Och ni! na buasai modd i adferyd a sicrhau rhyddid ac iawnder heb dywallt gwaed a cholli bywydau! Ond gobeithiwn y bydd i'r ystorm gael myned heibio am y waith hon etto.

Barddoniaeth.

YR HEN A'R NEWYDD.

I fynu'r flwyddyn newydd ddaw,
O niwlog ddyfnder amser draw,
I dderbyn bendith olaf llaw
Y flwyddyn hên,
Nad oes na gwên
Na gwrid yn lliwio'i thruan rudd,
Pan o dan leni cymyl prudd
Ar fonwes nos, yn trengu bydd.

Y foru'r wawr o addien wedd,
A dŷr yn fwyn ar newydd fedd
Y flwyddyn hên—ei huchel sedd,
Yn ngwydd y ser
A'r lleuad der,
Esgynwyd gan y newydd gain,
Mewn gemawg wisg o eira glain—
A'r haul a gyfyd fel o'r blaen.

Boed fyw mewn anfarwoldeb cu
Adgofion am y flwyddyn fu,
A gwlyched dagrau 'i hamwisg ddu.
Os taenodd lwch
Y bedd yn drwch
Dros lawer bron o rasawl rin,
I filoedd dygodd obaith cun
Barha yn hwy na hi ei hun. G——.

ODLIG,

Ar ail gychwyniad YR YMOFYNYDD.

Deffröa—llona, ddarllenydd,—eilwaith
Wele'r YMOFYNYDD!
Gwylia'i daith, fel goleu dydd,
E gluda'r Gwir i'r gwledydd.

Agor iddo'th ddôr—fe'th ddysg—â thrwy-
Athrawiaeth ddigymysg; (adl
A theg, efe a'th ddwg i fysg
Goreuddawn gwyr o addysg.

Daw yn nawdd Duwinyddion,—mal egyr
Amlygaf, ddirgelion:
Ac o'r niwl dwg Air un Iôn;—yn iaith
pwyll,
Llefara 'i ddidwyll fawr addewidion.

Y mae a fyno yr YMOFYNYDD
A dofn ddysgeidiaeth yr Hynafiaethydd;
Tolla'r swmau a wna'r Twyll-resymydd,
Dynoetha rinau'r Dewin-athronydd;
Y Gwir, o dywyll gaerydd,—adfera,
Annghêl* goledda yn ngwawl goleuddydd

Os egyr y D'wysogaeth—iddo'i dôr,
Oddi dan gefnogaeth,
Fe welir yn fwy helaeth,
Fal y llif ei fêl a llaeth.

Dyrymus caffo dramwy:—a dilys
Daw ei dalent fwy-fwy;
Ac yn nerth ei gynohrthwy,
Clyw, 'n *amen* gwag-goelion mwy.
D. L. M.

* Annghêl—*openly, uncovered.*